MAE DY GYMRAEG DI'N GRÊT

Asesiad diwedd blwyddyn

Paratowyd i: IAITH: y ganolfan cynllunio iaith

Uned 2-4, Parc Busnes Aberarad, Castellnewydd Emlyn, Sir Gâr, SA38 9DB
01239 711668
iaith.eu

Cyngor Iaith Hafan

Heini Gruffudd
Hafan
2 Lôn Rhianfa
Ffynhonne
Abertawe
SA1 6DJ

01792 455410

Mai 2010

CYNNWYS

Crynodeb gweithredol 4

Cylch Gorchwyl 9

Rhagnodiadau 11

1 Y Sesiynau 12
1.1 Niferoedd 12
1.2 Lleoliad 13
1.3 Amseru 13
1.4 Cyfleustra i'r mynychwyr 14
1.5 Trefniadau gofal plant 14
1.6 Trefniadaeth a'r gefnogaeth i hwyluswyr 14
1.7 Adnoddau 15
1.8 Ymateb hwyluswyr 15
1.9 Natur y gweithgareddau 16
1.10 Natur gynhwysol 16
1.11 Perthnasedd negeseuon iaith 17

2 Defnydd o laith gyda phlant 19
Graff 1: Gallu plant y mamau i siarad Cymraeg 19
Graff 2: Mamau'n siarad Cymraeg â'u plant yn ôl gallu'r plant yn y Gymraeg ... 19
Graff 3: Mamau'n siarad Cymraeg â'u plant yn ôl ardal 20
Graff 4: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg ar ddiwedd y cwrs, yn ôl gallu'r plant yn y Gymraeg 20
Graff 5: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg â'u plant yn ôl ardal 22

3 Defnydd o iaith gydag aelodau'r teulu 23
Graff 6: Gallu aelodau agos y teulu i siarad Cymraeg 23
Graff 7: Mamau'n siarad Cymraeg â'u teulu yn ôl gallu ieithyddol y teulu 24
Graff 8: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg â'u teulu yn ôl gallu ieithyddol y teulu 24

4 laith gyda phartner 26
Graff 9: Gallu partner y mamau i siarad Cymraeg 26
Graff 10: Mamau'n siarad Cymraeg â'u partner, yn ôl gallu'r partner yn y Gymraeg 26
Graff 11: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg â'u partner, yn ôl gallu'r partner yn y Gymraeg 27

5 Defnydd o iaith gyda ffrindiau 29
Graff 12: Gallu ffrindiau i siarad Cymraeg, yn ôl ardal 29
Graff 13: Mamau'n siarad Cymraeg â ffrindiau, yn ôl cyfran o ffrindiau sy'n siarad Cymraeg. 29
Graff 14: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg â ffrindiau, yn ôl cyfran o ffrindiau sy'n siarad Cymraeg. 30

6 Mamau'n defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned 32
Graff 15: Gallu pobl yn y caffi neu'r dafarn i siarad Cymraeg 32
Graff 16: Mamau'n siarad Cymraeg â phobl yn y caffi neu dafarn, yn ôl cyfran y bobol sy'n siarad Cymraeg 32
Graff 17: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg â phobl yn y caffi neu dafarn, yn ôl cyfran y bobol sy'n siarad Cymraeg..... 33
Graff 18: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg yn gymdeithasol 34
Graff 19: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg yn gymdeithasol, fesul ardal..... 35

7 Defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith..... 36
Graff 20: Mamau'n siarad Cymraeg yn y gwaith..... 36
Graff 21: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg yn y gwaith 37

8 Defnyddio'r Gymraeg gyda siopau a sefydliadau..... 39
Graff 22: Mamau'n siarad Cymraeg wrth siopa 39
Graff 23: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg yn y dref 39

9 Digwyddiadau 41

10 Darllen llyfrau Cymraeg a chyfryngau Cymraeg..... 42
Graffiau 24: Canrannau o famau'n defnyddio gwahanol gyfryngau Cymraeg ... 42

11 Sgiliau Cymraeg a hyder y mynychwyr 45
Graff 25: Hapusrwydd mamau gyda'u sgiliau Cymraeg yn gyffredinol. 45
Graff 26: Mamau'n fwy hapus â'u sgiliau iaith yn gyffredinol 47
Graff 27: Cynnydd mewn hapusrwydd â sgiliau iaith yn ôl hapusrwydd cychwynnol â sgiliau iaith 47

Diolchiadau

Gareth Ioan, Iaith Cyf., am hwyluso'r gwaith
Catrin Alun, am gymorth gyda'r arsylwi, y cyfweliadau a chymorth dadansoddi
Kelly Davies, am godio'r holiadur
Yr hwyluswyr yn y pedwar canolfan yr ymwelwyd â nhw
Y mamau a fu'n fwy na pharod i rannu eu profiadau

Crynodeb gweithredol

Cyffredinol
Canran gymharol fach o'r mamau oedd yn gwbl hapus wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar gychwyn y sesiynau. Roedd y mamau ar eu hapusaf yn siarad Cymraeg â phlant. Trwy gynnig gweithgareddau ymarferol a oedd yn hybu siarad, llwyddodd y sesiynau i godi hyder y mynychwyr, ac erbyn diwedd y sesiynau, tystiolaeth y mamau oedd eu bod yn fwy hyderus yn eu sgiliau iaith a'u bod yn defnyddio mwy o'r iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd. Roedd nifer yn dangos agwedd gadarnhaol iawn at yr iaith yn sgil y sesiynau ymwybyddiaeth iaith.

Canrannau o famau oedd yn fwy hapus gyda'u sgiliau iaith erbyn diwedd y sesiynau

93% yn fwy hapus wrth ddeall Cymraeg
91% yn fwy hapus i siarad Cymraeg
78% yn fwy hapus i ddarllen Cymraeg
70% yn fwy hapus gyda'u sgiliau Cymraeg
59% yn fwy hapus i ysgrifennu Cymraeg

Canrannau o famau'n siarad mwy o Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd erbyn diwedd y sesiynau

82% yn siarad mwy o Gymraeg gyda'u plant
74% yn siarad mwy o Gymraeg gyda'u ffrindiau
73% yn siarad mwy o Gymraeg gydag athrawon
73% yn siarad mwy o Gymraeg gyda'u teulu'n gyffredinol
64% yn siarad mwy o Gymraeg yn gymdeithasol yn gyffredinol
62% yn siarad mwy o Gymraeg yn y gwaith
61% yn defnyddio mwy o Gymraeg gyda siopau a sefydliadau
57% yn siarad mwy o Gymraeg gyda'r teulu ehangach
57% yn siarad mwy o Gymraeg yn y gymuned
51% yn siarad mwy o Gymraeg gyda chymdogion
47% yn siarad mwy o Gymraeg gyda'u partner
36% yn siarad mwy o Gymraeg gyda 'swyddogion'

Canrannau o famau'n defnyddio mwy o Gymraeg gyda'r cyfryngau erbyn diwedd y sesiynau

75% yn gwylio mwy o S4C
66% yn darllen, gwylio a gwrando mwy ar gyfryngau Cymraeg
51% yn darllen mwy o bapurau neu lyfrau Cymraeg
43% yn defnyddio mwy o Gymraeg wrth ebostio neu decstio
41% yn gwrando mwy ar radio Cymraeg
35% yn gwrando mwy ar fiwsig Cymraeg
34% yn defnyddio mwy o Gymraeg ar y we

Trwy gyfrwng y sesiynau daeth y mynychwyr yn ymwybodol o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, ac o'r cyfryngau Cymraeg sydd ar gael. Serch hynny, byddai llawer yn cael eu cyfyngu yn eu defnydd o'r Gymraeg gan gefndir ieithyddol eu teuluoedd a'u cymdogaeth. Yn sgil hyn mae angen ystyried sut y gellir parhau'r gwaith da a gyflawnir gan y sesiynau, efallai trwy sefydlu cylch cymdeithasu anffurfiol i'r mamau, a thrwy gael sefydliadau lleol, e.e. ysgolion a Mentrau Iaith, i ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau.

Mae angen rhoi sylw i sut mae denu rhagor o fynychwyr, a sut i roi sylw penodol i'r gwahaniaethau ieithyddol ymysg y mamau, gan fod nifer helaeth o'r mynychwyr yn ddysgwyr, yn hytrach nag yn siaradwyr Cymraeg na fyddai wedi gwneud defnydd helaeth o'r iaith.

Niferoedd
Denodd y sesiynau 88 o fynychwyr, ond tua 61 oedd yn mynychu ar gyfartaledd. Roedd rhai o'r sesiynau'n gymharol wan o ran niferoedd, a dysgwyr oedd cyfran helaeth o fynychwyr sawl sesiwn. Gall denu mamau ifanc i weithgareddau fod yn heriol, ac mae niferoedd isel yn gallu bod yn gyffredin mewn gweithgareddau cymunedol o'r math yma. Serch hynny, mae angen rhoi sylw i sut y gellir denu rhagor, a sut i wahaniaethu rhwng rhai sy'n 'gallu siarad Cymraeg' (gw. y briff) a dysgwyr, a sut i roi sylw priodol i'r ddau grŵp.

Lleoliadau
Roedd y lleoliadau i gyd yn hwylus ac yn gymwys, ac yn rhoi modd i gynnal gwahanol weithgareddau. Roedd cael lleoliad mewn ysgol Gymraeg yn fodd o ddod â rhieni i gyswllt agos â'r ysgol.

Amseru
Roedd yr amseru'n gyffredinol yn hwylus i'r rhieni, ond gall fod angen ystyried sut i ddarparu ar gyfer mamau sy'n dychwelyd i'r gwaith cyn diwedd y cwrs.

Cyfleustra
Roedd pob lleoliad yn hwylus i rieni oedd â char.

Trefniadau gofal plant
Roedd trefniadau gofal plant effeithiol ym mhob lleoliad. Weithiau yr ysgol oedd yn darparu hyn.

Trefniadaeth a chefnogaeth i hwyluswyr
Bu paratoi gofalus, a chafwyd strwythur clir i bob cwrs, a'r sesiynau wedi'u trefnu'n dda. Rhoddwyd cyfarwyddiadau manwl i hwyluswyr a darparwyd sesiynau hyfforddi.

Adnoddau
Roedd adnoddau da ar gael yn yr holl sesiynau, gan gynnwys rhai'n ymwneud â'r gweithgaredd o dan sylw a hefyd rhai atgyfnerthol, e.e. llyfrau, DVDau, CDau, papurau/cylchgronau Cymraeg.

Ymateb hwyluswyr
Roedd hwyluswyr yn dangos dawn arbennig wrth ymateb i gwestiynau mamau, yn enwedig wrth addasu i'r Gymraeg a glywir yn lleol ac wrth gynorthwyo dysgwyr. Roedd cryfder yr hwyluswyr yn nodwedd arbennig o'r sesiynau a welwyd.

Natur y gweithgareddau
Cafwyd gweithgareddau amrywiol ac ymarferol ym mhob sesiwn, gan gynnwys coginio, peintio cerameg, gwneud cardiau, adweitheg, ymweliadau gan yr heddlu, a chwarae gemau. Roedd sesiwn benodol ar ymwybyddiaeth iaith, a rhoddwyd cyngor a her ieithyddol ym mhob sesiwn. Roedd y pwyslais ar gyfathrebu llafar yn bwysig yn yr holl sesiynau.

Natur gynhwysol
Roedd y sesiynau'n cynnwys cyflwyniad, trafodaeth, gwaith pâr, a siarad wrth wneud gweithgareddau, gan sicrhau bod y mynychwyr yn cael profiad o siarad yr iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd ac wrth drafod gwahanol feysydd. Roedd y mynychwyr yn canmol y cyfle i siarad yn fawr, ac roedd nifer wedi newid arferion ieithyddol yn sgil hyn.

Defnydd o iaith gyda phlant
Roedd mamau'n siarad mwy o Gymraeg gyda phlant na chydag oedolion. Roedd amgylchiadau ieithyddol y cartref yn dylanwadu ar hyn, ac roedd cyfraniad cylch meithrin a'r ysgol yn bwysig. Erbyn diwedd y cwrs roedd y rhieni'n fwy hyderus.

Defnydd o iaith gydag aelodau'r teulu
Roedd hyn yn amrywio yn ôl gallu ieithyddol y teulu. Gwelwyd cynnydd yn nefnydd mamau o'r Gymraeg yn y teulu erbyn diwedd y cwrs, ond roedd hi hefyd yn anodd i rai newid arfer iaith.

Iaith gyda phartner
Lleiafrif o'r partneriaid oedd yn siarad Cymraeg yn dda, ac felly lleiafrif o'r mamau oedd yn gallu siarad Cymraeg gyda'u partneriaid. Erbyn diwedd y cwrs roedd symudiad cyffredinol i ddefnyddio mwy o Gymraeg er bod hyn yn anodd mewn sawl sefyllfa.

Defnydd o iaith gyda ffrindiau
Roedd gallu mamau i siarad Cymraeg gyda ffrindiau yn amrywio yn ôl eu hardal. Erbyn diwedd y cwrs roedd symudiad cyffredinol ar hyd y continwwm ieithyddol. Roedd nifer o famau wedi magu hyder wrth siarad Cymraeg gyda ffrindiau. Roedd yr ysgol yn cynnig cylch newydd o ffrindiau i rai.

Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
Roedd arferion ieithyddol mamau yn y gymuned yn amrywio yn ôl canran y rhai oedd yn siarad Cymraeg yn y gymuned, a rhai mamau'n cael mwy o gyfle nag eraill. Erbyn diwedd y cwrs roedd cyfran helaeth o'r mamau wedi magu hyder i ddefnyddio mwy o Gymraeg. Roedd hyn yn dibynnu ar gyfle, lefel eu sgiliau iaith, eu hyder eu hunain, ac ymateb siaradwyr Cymraeg iddyn nhw.

Defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith
Er bod canran uchel o'r mamau'n siarad y Gymraeg 'weithiau' yn y gwaith, canran fach oedd yn ei defnyddio'n brif iaith. Daeth mamau'n ymwybodol o werth y Gymraeg ym myd gwaith. Roedd cytundeb y byddai gwisgo bathodyn 'siarad Cymraeg' yn fodd o gynyddu'r defnydd o'r iaith yn y cyd-destun hwn.

Defnydd o'r Gymraeg gyda siopau a sefydliadau
Lleiafrif oedd yn defnyddio'r Gymraeg mewn siopau a gyda sefydliadau, er bod rhai wedi dod i wybod ble roedd modd defnyddio'r iaith. Roedd hyder yn rhwystr. Roedd hi'n anodd i rieni ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â sefydliadau ar y ffôn, er iddyn nhw gael rhestr gyflawn gan hwyluswyr, am fod y gwasanaeth o'r pen arall yn aml yn anfoddhaol. Byddai cael sefydliadau masnachol i hyrwyddo'r defnydd o fathodyn 'siarad Cymraeg' yn help i rai fyddai am ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf.

Digwyddiadau
Ar y cyfan nid oedd mamau'n mynd i ddigwyddiadau Cymraeg, a hynny am nifer o resymau, gan gynnwys diffyg amser rhydd. Roedd rhai mamau wedi gwerthfawrogi ymdrech gan ysgolion i ddarparu digwyddiadau. Digwyddiadau wedi'u trefnu i blant oedd y rhai mwyaf poblogaidd. Mynegwyd bod angen trefnu gweithgareddau'n anelu'n benodol at anghenion rhieni.

Llyfrau Cymraeg a'r cyfryngau.
Lleiafrif oedd yn defnyddio'r cyfryngau Cymraeg ar gychwyn y sesiynau. Y teledu oedd y cyfrwng a ddenai'r mwyafrif o famau i fanteisio ar gyfryngau Cymraeg. Daeth mamau'n fwy ymwybodol o'r gwahanol gyfryngau ac yn enwedig rhai oedd ar gael i'w plant. Cafwyd symudiad cyffredinol erbyn diwedd y cwrs tuag at ddefnyddio mwy o gyfryngau Cymraeg.

Sgiliau a hyder
Lleiafrif o famau oedd yn gwbl hapus wrth siarad Cymraeg ar ddechrau'r cwrs, ac eithrio wrth siarad â phlant. Lleiafrif oedd yn gwbl hapus gydag unrhyw un o'r sgiliau ieithyddol. Erbyn diwedd y cwrs gwelwyd symudiad cyffredinol cadarnhaol ar draws y continwwm hyder ieithyddol.

Argymhellion

1: Lle mae'n ymddangos mai nifer fach fyddai'n cael eu denu (e.e. ardal denau ei phoblogaeth), byddai'n dda taflu'r rhwyd yn ehangach i sicrhau bod nifer dda ar gael ar gychwyn pob grŵp. Byddai'n dda anelu am 8 – 10.

2: Roedd nifer o famau'n siomedig nad oedd parhad amlwg ar ddiwedd y cwrs. Byddai'n dda i Fentrau Iaith ac ysgolion cynradd gynnig dewisiadau dilyniant. Byddai croeso mawr i ddigwyddiadau Cymraeg sy'n apelgar i blant a theuluoedd.

3: Mae angen ystyried sut mae cynnig darpariaeth arbennig i ddysgwyr yn y sesiynau. Byddai'n dda targedu mamau ar lefel benodol o sgiliau ieithyddol, gan fod angen darparu'n wahanol i ddysgwyr ar lefel sylfaenol.

4: Roedd y gweithgareddau ymarferol yn codi hyder mamau yn y sgiliau cyffredinol, a hyn yn trosglwyddo wedyn i'w canfyddiad o'u sgiliau iaith. Byddai'n werth ystyried pa weithgareddau ymarferol sy'n debygol o symbylu'r rhyngweithio llafar uchaf.

5: Er mwyn cyfiawnhau nifer y gweithwyr a threfniadau gofal plant, byddai'n dda sicrhau bod nifer y mynychwyr yn ddigonol.

6: Mae angen ystyried sut y gellir cynnig amser cyfleus i famau sy'n dychwelyd i'r gwaith

7: Roedd hwyluswyr yn gwneud ymdrech arbennig i siarad yn ôl yr hyn a glywir yn gyffredinol yn yr ardal. Byddai modd llunio canllawiau iaith i godi hyder mamau yn hyn o beth.

8: Byddai'n werth ystyried cael ystafell sy'n ddigon mawr i gynnwys gweithgareddau bywiog i famau a'u plant

9: Mynegodd y mamau y byddai'n dda i rai sy'n gweithio mewn siopau a sefydliadau wisgo bathodyn i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg.

Cylch Gorchwyl

i Derbyniwyd cytundeb gan Iaith Cyf i ymgymryd â gwaith aseswr allanol ddechrau mis Tachwedd 2009. Trefnodd Iaith Cyf ddeg grŵp (gweler adran 1 isod) a chynnal deg sesiwn ym mhob ardal. Ymwelwyd â phedwar o'r deg grŵp yn y cynllun rhwng mis Tachwedd a mis Chwefror. Ymwelwyd â dau grŵp ddwywaith, ar ganol ac ar ddiwedd y rhaglen. Ymwelwyd ag un grŵp arall ar ganol y rhaglen, ac ag un grŵp arall ar ddiwedd y rhaglen.

ii Cynorthwywyd gyda'r Holiadur Gwaelodlin a oedd yn sail i fesur cynnydd ieithyddol rhieni ar ddiwedd y sesiynau. Dadansoddwyd y rhain drwy becyn ystadegol SPSS.

iii Paratowyd adroddiadau ar yr ymweliadau a lluniwyd adroddiad canol y rhaglen a oedd yn crynhoi yr hyn a welwyd yn y sesiynau.

iv Cynhaliwyd cyfweliadau gydag un ar ddeg o famau mewn pedair ardal wahanol i holi am eu profiadau yn y cwrs, ac am eu defnydd o'r iaith gyda'u plant, yn y teulu, yn y gymuned ac yn y meysydd eraill perthnasol i'r deilliannau dymunol.

v Hwn yw'r adroddiad diwedd blwyddyn. Yn unol â'r briff, bydd yr adroddiad hwn yn rhoi sylw i'r materion canlynol :

Y sesiynau

- Trefniadaeth sesiynau
- Adnoddau a ddefnyddiwyd
- Natur gynhwysol y sesiynau
- Natur y gweithgareddau
- Natur a pherthnasedd y negeseuon ieithyddol
- Ymateb yr hwyluswyr i bynciau a godir gan y mynychwyr
- Y gefnogaeth a roddir i'r hwyluswyr

Arferion iaith y mynychwyr

- Yn y teulu
- Gyda'u cyfoedion a chyfeillion
- Yn y gymdogaeth
- Gyda sefydliadau
- Yn y gweithle

Deilliannau

Roedd y deilliannau dymunol y gobeithid eu cael erbyn diwedd y sesiynau'n cynnwys y canlynol. Ceisiwyd mesur y llwyddiant a gafwyd gyda'r rhain trwy ddull meintiol yr holiadur a thrwy ddull ansoddol trwy gyfrwng ymweliadau a chyfweliadau.

i. Bod yn ymwybodol o fanteision magu plant yn ddwyieithog
ii. Defnyddio mwy o Gymraeg gyda phlant

iii. Bod yn ymwybodol o strategaethau magu plant yn y Gymraeg
iv. Defnyddio mwy o Gymraeg yn gymdeithasol
v. Bod yn ymwybodol o gyfleoedd i fynychu digwyddiadau cymdeithasol Cymraeg
vi. Defnyddio mwy o Gymraeg yn y gweithle
vii. Bod yn ymwybodol o werth y Gymraeg yn y gweithle
viii. Bod yn ymwybodol o wasanaethau Cymraeg
ix. Bod yn ymwybodol o ddeunyddiau Cymraeg
x. Mwy o hyder yn eu sgiliau iaith

Rhagnodiadau

Cynhaliwyd 10 o sesiynau Ma' Dy Gymraeg Di'n Grêt mewn 10 lleoliad.

Roedd 88 o fynychwyr rhwng y cyfan. Roedd 2 o'r lleoliadau yng Ngwynedd, 2 yng Ngheredigion, 5 yng Nghaerfyrddin, ac 1 yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Derbyniwyd holiaduron gan 67 o'r mynychwyr, sef 76% ohonynt. Mae hyn yn cyfateb yn fras i gyfartaledd y mynychwyr am bob sesiwn, sef 6.1. Serch hynny, ni chafwyd holiaduron terfynol gan 12 o'r rhain, a bydd y dadansoddiad o newid ymddygiad ieithyddol yn dibynnu felly ar 54 o'r mynychwyr, sef 61% o gyfanswm y mynychwyr. Bernir bod hyn yn ddigonol i ddod i gasgliadau cyffredinol.

Yn y dadansoddiad canrannol, mae angen cofio bod y niferoedd a ymatebodd yn llai na 100. Bydd canrannau felly'n cael eu chwyddo, a bydd llai o arwyddocâd i wahaniaethau bach rhwng canrannau. Bydd arwyddocâd, serch hynny, lle mae'r canrannau'n ddigon sylweddol i nodi tuedd amlwg.

Yn yr holiadur, barn yr ymatebwyr eu hunain a gafwyd am yr elfennau yr holwyd amdanynt. Felly nid yw'r gwahanol fesuriadau, e.e. o allu ieithyddol aelodau'r teulu, yn un gwrthrychol. Nid yw'r mesur o sgiliau iaith, chwaith, yn wrthrychol, ond yn hytrach yn adlewyrchu canfyddiad yr ymatebwr ei hun.

Er bod angen peth gofal wrth ddehongli'r ymatebion, bydd tueddiadau amlwg yn dod i'r wyneb.

Roedd 20 (23%) o'r mynychwyr yng Ngwynedd, 25 (28%) yng Ngheredigion, 38 (43%) yng Nghaerfyrddin a 5 (6%) yng Nghastell-nedd Port Talbot.

O blith yr ymatebwyr, roedd 19 (28%) o Wynedd, 16 (24%) o Geredigion, 27 (40%) o Sir Gaerfyrddin a 5 (7.5%) o Gastell-nedd Port Talbot.

Bernir bod canran yr ymatebwyr yn ddigon agos i ganran y mynychwyr i ddod i gasgliadau cyffredinol fesul ardal.

1 Y Sesiynau

1.1 Niferoedd

Lleoliad	Nifer mynychwyr a gofrestrodd	Nifer mynychwyr ar gyfartaledd
Bangor	12	8 – 9
Dolgellau	8	6
Aberystwyth	13	7-9
Aberteifi	12	10-12
Caerfyrddin	6	3
Llanymddyfri	5	3
Cwm Gwendraeth	10	8
Dyffryn Aman	6	4
Llanelli	11	6-8
Ystalyfera	5	2-3
Cyfanswm	88	61

Yn y sesiynau a welwyd, roedd y niferoedd canlynol yn bresennol:

Cross Hands	6
Cross Hands (2)	7
Aberteifi	6
Aberystwyth	8
Llanymddyfri	3
Llanymddyfri (2)	3
Cyfartaledd	**5.5**

Yn achos un o'r rhain, daethpwyd o hyd i fynychwyr trwy'r clinig, y cylch Ti a Fi a Mudiad Meithrin heb hysbysebu yn ehangach. Er bod hyn yn sicrhau bod y mamau'n perthyn i grŵp a fyddai'n ymddiddori, ni ddenwyd digon, a byddai'n werth ystyried taflu'r rhwyd yn ehangach neu ddwyn rhagor o berswad ar rai i fynychu. Meddai un fam mewn grŵp bach nad oedd "dim ots fod y grwp yn fach " ond "mae'n well i gael efalle pump neu chwech" ac meddai am rai o'i chydnabod yn y Cylch Ti a Fi, "Fi'n meddwl mae'n addas i nhw hefyd. Mae'n ironic, dyn nhw ddim eisiau dod ac maen nhw ddim yn teimlo'n hyderus, ond pwrpas y grwp yw adeiladu hyder."

Mewn cylch arall daethpwyd o hyd i fynychwyr trwy gyswllt personol â mamau, a fu'n rhan o gynllun TWF. Ni hysbysebwyd eto, a chafwyd nifer digonol. Yma targedwyd rhai a fyddai'n arfer siarad Saesneg yn unig neu'n bennaf, er bod ganddynt allu yn y r Gymraeg. Byddai'r mynychwyr wedi bod i ysgolion cyfun Cymraeg neu ddwyieithog. Roedd yr ardal yma'n fwy poblog, ac roedd yn haws cael nifer dda.

Mewn trydydd achos, roedd Iaith Cyf wedi darparu poster hysbysebu, a daethpwyd o hyd i'r mamau trwy Twf. Roedd cyfran helaeth o'r mamau yn y grŵp yma'n ddysgwyr, ac roedd natur y gweithgareddau'n adlewyrchu hyn. Roedd y rhain yn ymwneud â chodi sgiliau yn ogystal ag â hyder.

Gwelwyd mewn grŵp arall hefyd fod cyfran y dysgwyr yn uchel, a rhai ohonynt ar gamau cymharol gychwynnol dysgu'r iaith.

Ym mhob un o'r grwpiau a welwyd, roedd rhesymau penodol yn gyfrifol am absenoldeb, gan gynnwys salwch, tywydd drwg, agosrwydd ar y Nadolig a mamau'n mynd yn ôl i weithio erbyn diwedd y cwrs.

Ystyriaeth 1: Lle mae'n ymddangos mai nifer fach fyddai'n cael eu denu (e.e. ardal denau ei phoblogaeth), byddai'n dda taflu'r rhwyd yn ehangach i sicrhau bod nifer da ar gael ar gychwyn pob grŵp. Dylid anelu am 8 – 10.

Ystyriaeth 2: Byddai'n dda targedu mamau ar lefel benodol o sgiliau ieithyddol, gan fod angen darparu'n wahanol i ddysgwyr ar lefel sylfaenol.

1.2 Lleoliad

Roedd gan bob un o'r lleoliadau a fynychwyd ei rinweddau.

1.2.1 Roedd maes parcio hwylus ar gael yn y pedwar lleoliad.

1.2.2 Mewn tri lleoliad roedd ystafell ar wahân ar gael i blant y mamau. Roedd ystafell un lleoliad ychydig yn gyfyng, ond roedd hyn yn sicrhau agosrwydd rhwng y mamau. Roedd un arall mewn neuadd braf, gyda lle i'r mamau a'r plant rannu gweithgaredd ar ddiwedd y cwrs. Roedd digon o le mewn tri lleoliad ar gyfer gweithgareddau amrywiol iawn.

1.2.3 Roedd tri o'r lleoliadau a fynychwyd yn perthyn i ysgol lle roedd modd parhau ag addysg Gymraeg, ac roedd yn dda cael y cyswllt hwn i sicrhau dilyniant ieithyddol. Roedd y llall yng nghanolfan Mudiad Ysgolion Meithrin, ac roedd hyn hefyd yn fuddiol iawn o ran dilyniant ieithyddol y plant.

Ystyriaeth: Byddai'n werth ystyried cael ystafell sy'n ddigon mawr i gynnwys gweithgareddau bywiog i famau a'u plant

1.3 Amseru

Roedd teimlad bod yr amseru, yn y prynhawn gan amlaf, yn rhoi syniad i'r mamau o gael prynhawn o fwynhad, ac roedd hyn hefyd yn gyfleus i'r mamau oedd â phlant yn yr ysgol eisoes.

Cafwyd peth problem ar ddiwedd un cwrs am fod rhai mamau eisoes wedi dychwelyd i'r gwaith. Byddai'n werth ystyried a fyddai modd amrywio ychydig ar amseru sesiynau i gynnig amser, e.e. bore Sadwrn, i gynnwys y rhain ar ddiwedd cwrs.

Ystyriaeth: Mae angen ystyried sut y gellir cynnig amser cyfleus i famau sy'n dychwelyd i'r gwaith

1.4 Cyfleustra i'r mynychwyr

Roedd pob un o'r pedwar lleoliad a fynychwyd yn gyfleus i rai â char. Roedd dau leoliad yn agos at ganol y dref, fel bod modd cerdded.

1.5 Trefniadau gofal plant

Roedd pob lleoliad yn cynnig darpariaeth gofal plant effeithiol. Byddai'r plant mewn dosbarth neu ystafell gyfagos mewn tri lleoliad, ac yn yr un neuadd â'r grŵp mewn lleoliad arall. Yn yr achos hwnnw roedd digon o le, ac er y gallai'r plant fod ychydig yn ymyrrol, roedd un fam yn falch bod ei phlentyn yn agos ati ac yn cael chwarae'n Gymraeg. Roedd dwy feithrinwraig yn gofalu am y plant ym mhob lleoliad. Roedd angen am ddarpariaeth gofal plant ym mhob lleoliad, ac roedd y mamau'n gwerthfawrogi hyn.

Roedd staff yr ysgol yn gyfrifol am y plant mewn un lleoliad. Mewn un arall roedd cylch meithrin yn rhedeg yr un pryd yn gyfleus. Lle roedd nifer y mamau'n fach, a lle roedd angen gofal plant, gallai nifer y rhai oedd yn gweithio yn y sesiynau fod yn fwy na nifer y mamau (e.e. hwylusydd, cynorthwywraig Menter Iaith, cyflwynydd gweithgaredd, dwy ofalwraig).

Ystyriaeth: Er mwyn cyfiawnhau nifer y gweithwyr a threfniadau gofal plant, byddai'n dda sicrhau bod nifer y mynychwyr yn ddigonol.

1.6 Trefniadaeth a'r gefnogaeth i hwyluswyr

Roedd pob cylch a welwyd wedi cael ei drefnu'n drylwyr. Roedd Iaith Cyf wedi darparu cyfarwyddiadau a deunyddiau. Roedd y rhain yn ymwneud â hysbysebu, rhaglen y sesiynau, negeseuon iaith, awgrymiadau gweithgareddau ac ati. Roedd yr arweinwyr wedi mynychu sesiynau gan Iaith Cyf i dderbyn cyfarwyddiadau.

Roedd y sesiynau'n dilyn trefn gyson. Roedd llyfrau a chylchgronau Cymraeg ar gael, a'r rhain yn cael eu cynnig i'r mynychwyr. Roedd lluniaeth ysgafn ar gael yn y sesiynau ym mhob lleoliad, ac roedd y sesiynau hefyd yn cynnwys elfen o gyflwyno, trafod a gweithgaredd a oedd wedi ei drefnu'n dda, yn aml gydag ymwelydd allanol.

Roedd arweinwyr y sesiynau'n canmol y gefnogaeth a roddwyd iddynt gan Iaith Cyf. Roedd hyn yn cynnwys arweiniad ar lywio sesiynau, arweiniad ar drafod iaith yn ei chyd-destun, a strwythur sesiynau. Rhoddwyd iddyn nhw adnoddau addas ar gyfer sesiynau, gan gynnwys deunyddiau penodol ar gyfer sesiynau ymwybyddiaeth iaith.

Roedd cysondeb y gweithgareddau, y dulliau trafod ac ymateb hwyluswyr yn tystio i drefniadaeth drylwyr ar ran Iaith Cyf. Gwelwyd enghreifftiau o arfer da ychwanegol eu gwerth yn rhai o'r sesiynau, a byddai'n dda rhannu'r rhain rhwng yr hwyluswyr.

1.7 Adnoddau

Roedd adnoddau amrywiol ar gael yn y sesiynau a fynychwyd. Roedd cegin neu adnoddau cegin ar gael ym mhob lleoliad a defnyddiwyd hyn mewn sesiynau coginio yn ogystal ag i baratoi lluniaeth. Roedd yr adnoddau ychwanegol yn cynnwys rhai y byddai'r cyflwynydd yn dod â nhw i'r sesiwn, e.e. gwely symudol ar gyfer adweitheg, adnoddau coginio, a deunyddiau addas ar gyfer gweithgareddau ymarferol, e.e. gwneud addurniadau, cardiau, coginio, ac ati.

Roedd cyhoeddiadau Cymraeg ar gael, gan gynnwys rhai o natur boblogaidd, fel Storïau Sydyn, ac roedd CDau cerddoriaeth Gymraeg yn cael ei chanu ar brydiau. Byddai rhai o'r rhain ar gael i'r mamau eu defnyddio adref.

Roedd adnoddau ar ffurf siartiau, cardiau ffeithiau a lluniau a siartiau fflip ar gael ar gyfer sesiynau ymwybyddiaeth iaith. Roedd dyfyniadau trawiadol ar siart ymwybyddiaeth iaith mewn perthynas ag Adroddiad Addysg yng Nghymru, 1847. Nid oedd gwybodaeth ar bob siart yn cynnwys dyddiadau. Gallai hyn fod wedi bod o gymorth wrth i famau ddeall hanes yr iaith.

Roedd gan rai o'r sesiynau adnoddau arbennig. Mewn un lleoliad roedd parasiwt a phypedau'n ddefnyddiol ar gyfer gweithgaredd gyda phlant a oedd yn cynnwys dysgu caneuon i'r mamau. Mewn lleoliad arall cafwyd sesiwn gyda gemau Cymraeg a oedd yn addas i blant, ond a oedd hefyd yn cynnig gweithgaredd i'r mamau.

Roedd ymdrech hefyd i ddefnyddio adnoddau allanol, e.e. rhaglenni teledu, a sinema, ymweliad â siop Gymraeg, er mwyn ysgogi arferion gwylio Cymraeg, i annog defnyddio'r Gymraeg yn y gymdogaeth ac i ennyn trafodaeth.

Byddai taflenni addas yn cael eu dosbarthu i gyd-fynd â'r gweithgareddau, gan gyflwyno geirfa lle yr oedd angen.

1.8 Ymateb hwyluswyr

Roedd hwyluswyr yn barod iawn i ymateb i faterion a godwyd gan fynychwyr. Gallai'r materion hyn ymwneud â myrdd o wahanol bethau, gan gynnwys gwybodaeth ieithyddol, gwybodaeth am hanes yr iaith, neu am y Gymraeg yn y gymuned.

Roedd yr hwyluswyr yn rhoi cyngor ieithyddol yn aml, e.e. geirfa, ond bryd arall yn dangos yn glir pryd byddai'n arferol defnyddio geiriau Saesneg wrth siarad Cymraeg.

Erbyn diwedd y sesiynau, roedd yr holl hwyluswyr a welwyd wedi magu perthynas agos â'u mynychwyr. Meddai un fam ei bod wrth ei bodd yn gweld yr hwylusydd o bryd i'w gilydd yn y dref, gan wybod y gallai ymarfer ei Chymraeg, "Neis gweld [Enw] o gwmpas y dre – weithiau pan dwi'n siarad Cymraeg dydy pobl ddim yn gwbod mod i'n ail iaith – dwi'n teimlo'n fwy hyderus."

Canmolodd un yr hwylusydd am drefnu ar eu cyfer, "[Enw] yn dda yn cyflwyno'r cwrs. Trefnu gwahanol bethau i wneud a trefnu rhywle i'r plant i fynd – hynny'n help mawr – dim teulu gen i o gwmpas ar y funud i helpu."

1.9 Natur y gweithgareddau

Roedd pwyslais y gweithgareddau ar yr ymarferol. Gwelwyd sesiynau adweitheg mewn tri lleoliad. Roedd gweithgareddau eraill yn cynnwys gwneud addurn Nadolig, coginio, gwneud dillad o ddeunydd gwastraff, peintio crochenwaith, peintio ewinedd, ymweliadau â siopau, caffis a llyfrgell, mynd i'r sinema, gwneud cardiau Nadolig, ioga, sesiynau trafod agwedd at iaith, a sesiynau adnoddau i blant. Roedd un sesiwn yn cynnig gweithgaredd penodol i'r mamau gyda'r plant ar y diwedd, a'r ystafell eang yn rhoi modd i hyn ddigwydd.

Cyfunwyd y gweithgareddau â chyflwyno geirfa berthnasol iddynt, e.e. coginio (geirfa ryseitiau, offer coginio), adweitheg (rhannau'r corff, afiechydon). Yn y sesiynau hyn roedd pwyslais ar gael mamau i siarad ac i drafod, naill ai gyda'r hyfforddwraig neu ymysg ei gilydd. Yn y sesiynau adweitheg, byddai mamau'n cymryd eu tro, ac mewn un byddent yn gweithio mewn parau.

Roedd pwyslais ym mhob sesiwn ar waith ymarferol, ac roedd hyn yn fodd o godi hyder mamau yn eu gallu eu hunain. Yn ei dro byddai hyn yn gallu arwain at godi hyder ieithyddol. Meddai un fam, "Sesiyne wedi helpu – odd dim hyder, o'n i'n neud coginio, wedi cal resipis, wedi neud nhw yn y tŷ, neud cardie, petha 'ma o eising, meddwl wedyn o'n i'n gallu nawr. Wedi rhoi kick start i fi – fel arall, jyst siarad Sysneg da pawb."

Nododd un fam sut roedd y gweithgareddau'n arwain at siarad, "Gweithgareddau – wedi mwynhau popeth rili. Dwi'n credu fod popeth yn iawn i wneud i ni ymarfer." Meddai mam arall ei bod "yn help gwneud rhywbeth bob dydd yn Gymrag, yn naturiol, ac yn y diwedd ti bron yn anghofio bo ti'n siarad Cymraeg."

Cyfle i siarad, yn fwy na dim, oedd yn apelio at fam arall, "Help mwya' yn y cwrs – cwrdd â bobl arall sy'n siarad, sy'n dysgu Cymraeg. A hefyd y peth gorau i fi ydy ymarfer rili – achos pan dwi'n mynd i cwrs Wlpan does dim llawer o gyfle i ymarfer siarad. Dim ond ysgrifennu. Rhoi cyfle i siarad."

Roedd hwyluswyr wedi cael cyfarwyddyd i gynnig neges ieithyddol neu her ieithyddol i'r mamau ym mhob sesiwn. Roedd hyn yn gallu cynnwys anfon neges destun yn Gymraeg, siarad Cymraeg gyntaf wrth siopa, ffonio yn Gymraeg, rhoi bathodynnau siarad Cymraeg i weithwyr siop, ac ati. Dangosodd nifer o'r mamau falchder ar ôl llwyddo i gyflawni'r pethau hyn.

Ystyriaeth : Roedd y gweithgareddau ymarferol yn codi hyder mamau yn y sgiliau cyffredinol, a hyn yn trosglwyddo wedyn i'w canfyddiad o'u sgiliau iaith. Yn sgil hyn byddai'n werth ystyried pa weithgareddau ymarferol sy'n debygol o symbylu'r rhyngweithio llafar uchaf.

1.10 Natur gynhwysol

Roedd y sesiynau a welwyd yn cynnig rhyngweithio ar sawl lefel, gan gynnwys cyflwyniad, trafod rhwng y mynychwyr a'r cyflwynydd neu'r trefnydd, a thrafod rhwng y mynychwyr a'i gilydd. Roedd rhai sesiynau'n cynnwys elfen gymharol helaeth o gyflwyniad, tra roedd eraill yn effeithiol yn cynnwys gwaith pâr, e.e. chwarae gêm neu sesiwn adweitheg dwylo.

Roedd ymdrech amlwg ar ran y trefnyddion i holi mynychwyr am eu gweithgareddau ac i gael eu hymateb. Byddai mynychwyr yn teimlo'n rhydd i holi am eirfa neu am rywbeth nad oedd yn ddealladwy iddynt yn y lle cyntaf.

Roedd hwyluswyr yn rhoi pwyslais ar siarad Cymraeg fel y caiff ei siarad yn lleol. Byddai hyn yn golygu cynnwys tafodiaith, a defnyddio geiriau Saesneg lle byddai hyn yn arferol yn y dafodiaith. Roedd hyn yn dacteg a wnâi i nifer o'r mamau deimlo bod y sgiliau ieithyddol a oedd ganddynt yn dderbyniol o ran defnyddio'r Gymraeg ar lafar.

Roedd mamau'n gytûn bod y sesiynau wedi bod yn fuddiol iawn wrth eu hybu i siarad â'i gilydd. Dyma un o brif rinweddau'r sesiynau yn ôl nifer, "Ti ddim yn eistedd mewn dosbarth. Rhaid i chi siarad Cymraeg. Mwy relaxed – gallu gwneud beth ti'n teimlo," meddai un. Meddai un arall, "siarad â ffrindiau – neud pethe." Meddai un arall, "Wedi helpu gyda hyder dwi'n meddwl a jyst gyda meddwl am y pobol sy'n gallu trial siarad Cymraeg a nhw – i weld mwy o cyfleoedd." Meddai mam arall, "Rhoi hyder i trio. Dim ots os dwi'n gwneud lot o gamgymeriade – a bod fi ddim yn iwsio treigliade." Roedd y cwrs yn "dda i rywun fel fi achos sdim lot o hyder da fi i siarad yn y gymuned," meddai.

Roedd y cyfuniad o siarad a gweithgareddau'n apelio at un fam, "Siarad Cymraeg – tri o ni da'n gilydd. Jyst cael cwrdd â pobol a siarad fwy, wedi mwynhau, a reflexology, dysgu lot 'da ymweliad y polîs."

Roedd y cwrs wedi bod yn gymorth mawr i un fam, "Y cwrs wedi helpu fi loads. O [Enw lle]… , ddim yn sylweddoli pa mor Gymraeg oedd – ddim, er i fi fynd i ysgol Gymraeg – symud i fan hyn, siarad mwy nawr."

Roedd mam arall eto'n frwd iawn, "Iaith ni yw e – ddylen i ddim twmlo'n awkward os ni'n defnyddio Cymraeg – ni'n deimlo nawr os yn nhw ddim, twll! Ffantastig .. y ffaith bod dim ots bo chi'n rhoi ambell air Sysneg mewn, treiglade fi ddim yn ffantastig , defnyddio'r iaith, cwrdda bobol, siarad Cymraeg yn y cylch."

Ystyriaeth 1: Roedd nifer o famau'n siomedig nad oedd parhad amlwg ar ddiwedd y cwrs. Mae angen meddwl sut y gellir parhau ac ehangu'r gwaith da a wneir ar y cwrs.

Ystyriaeth 2: Roedd ymdrech arbennig i siarad yn ôl yr hyn a glywir yn gyffredinol yn yr ardal.

1.11 Perthnasedd negeseuon iaith

Roedd negeseuon iaith yn cael eu cyflwyno weithiau fel rhan o sgwrs, fel her wythnosol, neu yn ystod sesiwn benodol. Gosodwyd heriau cyraeddadwy gan yr hwyluswyr a oedd yn cynnwys tecstio yn Gymraeg, holi am nwyddau mewn siop yn Gymraeg, cynnig bathodynnau 'gallu dwyieithog' i weithwyr siop, ffonio yn Gymraeg, a gwylio rhaglenni teledu Cymraeg.

Roedd effaith hyn yn drawiadol ar rai mamau. Meddai un, "Pan weles i rifau Cymrag wedi mynd lawr [rhifau nifer y siaradwyr Cymraeg] – rhaid neud rhywbeth byti fe."

Byddai anogaeth yn cael ei rhoi i fynychwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf, ac i deimlo'n gysurus i wneud hynny, gan awgrymu sut i wneud. Roedd anogaeth amlwg i famau siarad Cymraeg gyda'u plant. Ymysg y cynigion cadarnhaol roedd y syniad o ddefnyddio pyped a fyddai bob amser yn siarad Cymraeg.

Yn y sesiwn ar ymwybyddiaeth iaith a welwyd, cafwyd trafodaeth effeithiol ar hanes y Gymraeg yn y cyfnod diweddar, trwy gysylltu lluniau â dyddiadau, a hefyd trwy ddewis lluniau i gyfateb i'w cysyniad nhw o Gymru a'r iaith.

Roedd mamau'n sôn am agweddau traddodiadol negyddol at yr iaith. Gwelwyd hyn ym mhrofiad un o'r mamau, yr oedd ei thad-cu'n credu nad oedd gwerth i'r Gymraeg. Roedd y fam hon wedi penderfynu bod ei hail blentyn yn mynd i ysgol Gymraeg, er bod ei phlentyn cyntaf mewn ysgol Saesneg. Roedd mam arall yn teimlo'n frwd o blaid cael y Gymraeg gyntaf ar arwyddion, ac yn falch bod ei phlentyn mewn ffrwd Gymraeg, ac roedd yn barod iawn i herio'i gŵr ar hyn. Roedd y negeseuon yn y sesiwn yn berthnasol i benderfyniadau'r mamau.

Un pwynt 'dysgu' oedd codi hyder wrth gysylltu â sefydliadau, gan ddefnyddio'r Gymraeg gyntaf heb ofni na fyddai'r person yn siarad Saesneg. Ond yn ôl profiad mamau, roedd y cais i ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau wedi wynebu rhai anawsterau pan fyddai ymateb cymysglyd yn dod o'r sefydliadau.

O'r hyn a welwyd roedd y negeseuon iaith yn ymwneud â

i. defnyddio'r Gymraeg yn naturiol gyda'r plant, y teulu a ffrindiau
ii. anogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg gyntaf
iii. codi hyder ynddyn nhw eu hunain a'r Gymraeg,
iv. deall sefyllfa'r Gymraeg yn sgil hanes yr iaith
v. deall agweddau at yr iaith.
vi. deall bod y Gymraeg yn iaith addas i'w defnyddio yn y gwaith a gyda sefydliadau.

2 Defnydd o laith gyda phlant

Roedd gan 19 o famau blant y bernid eu bod yn siarad Cymraeg yn dda, ac roedd gan 13 arall blant yn siarad Cymraeg yn 'eitha da'. Roedd gan rai blant a oedd yn rhy fach i siarad iaith.

Graff 1: Gallu plant y mamau i siarad Cymraeg

Cyn y sesiynau, gyda'u plant y byddai mamau'n siarad Cymraeg yn bennaf, a'r mwyafrif yn siarad peth Cymraeg â nhw. Roedd 34% oedd yn siarad Cymraeg bob tro neu'r rhan fwyaf o'r amser â'u plant.

Graff 2: Mamau'n siarad Cymraeg â'u plant yn ôl gallu'r plant yn y Gymraeg



Hyd yn oed pan fyddai plant yn siarad Cymraeg yn dda, 'weithiau' yn unig y byddai mwyafrif y mamau'n siarad Cymraeg â nhw. Y Gymraeg oedd unig gyfrwng cyfathrebu'r mamau a'r plant yn achos 9 o'r mamau, a'r prif gyfrwng yn achos 10 arall.

Roedd peth gwahaniaeth yn arferion siarad â phlant cyn y cwrs o ran ardal. Gwelwyd yng Ngheredigion mai ychydig oedd yn siarad Cymraeg yn bennaf neu bob amser gyda'u plant, yn wahanol i'r ardaloedd eraill. Mae modd priodoli hyn i'r ffaith fod nifer sylweddol o famau'r sir hon yn dal i ddysgu'r Gymraeg.

Graff 3: Mamau'n siarad Cymraeg â'u plant yn ôl ardal



Pan ofynnwyd i'r mamau ar ddiwedd y sesiynau a oedden nhw'n siarad mwy neu lai o Gymraeg gyda'u plant, cafwyd bod 82% o'r mamau erbyn diwedd y cwrs yn siarad 'mwy o Gymraeg' neu 'lawer mwy o Gymraeg' gyda'u plant. (Roedd tua 10 ohonynt heb nodi eu hymateb, naill ai am fod y plant heb iaith, neu am nad oeddynt wedi llenwi'r holiadur ar ddiwedd y cwrs.)

Roedd y duedd i siarad mwy o Gymraeg i'w gweld beth bynnag oedd gallu'r plentyn yn y Gymraeg. Erbyn hyn byddai 10 o'r mamau'n siarad yr un faint o Gymraeg gyda'u plant, tra byddai 37 yn siarad mwy neu lawer mwy o Gymraeg.

Graff 4: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg ar ddiwedd y cwrs, yn ôl gallu'r plant yn y Gymraeg



Roedd profiadau mamau'n gallu dibynnu ar safon eu hiaith eu hunain, a hefyd ar yr iaith y bydden nhw wedi bod yn ei defnyddio gyda'u plant cyn dechrau'r cwrs. Meddai un fam a oedd wedi dysgu'r Gymraeg yn eitha da, "da ni'n siarad Cymraeg yn y tŷ – weithiau – bobl sy'n byw drws nesa – maen nhw'n siarad Cymraeg – a'r plant drws nesa'n siarad Cymraeg â'r ferch hyna." Roedd ei gŵr yn dramorwr, a hithau heb gyfle i fynd ar gwrs Cymraeg ar ôl cael ei hail faban.

Roedd mam arall yn dal mewn cyswllt â mamau eraill ar ôl y cwrs, ond gan eu bod i gyd yn ddysgwyr, bydden nhw weithiau'n siarad Saesneg, ond yn gwneud ymdrech i siarad Cymraeg gyda'u plant, "Dal i gwrdd â dwy arall oedd ar y cwrs – siarad Saesneg yn aml, ond trio efo'r babis siarad Cymraeg. "

Roedd gan fam arall, a oedd eto'n ddysgwraig, ŵr oedd yn siarad Cymraeg. Roedd hyn yn amlwg yn gymorth iddi o ran siarad Cymraeg gyda'i phlant, "teulu fy ngŵr yn Gymraeg – siarad Cymraeg efo'r plant. O'n i'n siarad Cymraeg gyda'r plant cyn y cwrs." Roedd gan fam arall ŵr nad oedd yn gallu siarad Cymraeg, ond byddai'n "Siarad Cymraeg pan dwi'n siarad ar ben fy hun" gyda'i merch.

Nid oedd mam arall yn siarad llawer o Gymraeg yn ei chartref. Roedd ei gŵr yn dod o wlad arall, a hithau'n dod o Loegr. A'i phlentyn yn dechrau yn yr ysgol feithrin, mae mwy o gyswllt â'r Gymraeg erbyn hyn, "Mae fy merch yn pedair oed nawr a mis Medi ddwetha roedd hi'n ddechrau yn yr ysgol feithrin yn [Enw lle]… so roedd hi'n clywed fwy o Cymraeg ac roedd na cyfle i fi trio siarad gyda'r staff ac nawr ar ôl Pasg mae hi wedi symud i'r ysgol go iawn, trwy'r dydd."

Cafodd mam arall ei magu yn Lloegr, a bellach mae hi yn y broses o ddysgu'r iaith. Ganed eu gŵr yng Nghymru, a bydden nhw'n awr yn ceisio siarad Cymraeg gyda'u plant, "Dwi'n siarad Cymraeg to my son – (mab) – … fy mam yn byw yn [Enw lle]… . Byw yma ers o'n i'n ten."

Roedd mwy o Gymraeg gan fam arall, a hyn yn cael ei adlewyrchu wedyn yn ei thuedd i siarad Cymraeg gyda'i phlant, "gyda'r plant, gwneud bach o Cymraeg – mwy a mwy nawr, nhw'n neud e'n yr ysgol a nhw'n deall popeth – ond mae'n habit i siarad Saesneg os ti wedi dechrau. Fy ngŵr i'n Cymro – fe'n siarad Cymraeg yn dda. Mae fe yn siarad gyda'r plant ond yr un peth, mae'n ymdrech i neud e gyda'r plant achos newid. Os ni'n gwneud e gyda'r plant, ni yn – ond ddim fel arfer." Mae'n ymddangos bod newid iaith yn broblematig ar ôl dechrau siarad mewn iaith arall.

Cefndir ieithyddol cymysg oedd gan un fam. Roedd rhai o'i pherthnasau'n siarad Cymraeg, ond nid oedd ei gŵr yn siarad Cymraeg. Byddai'n gwneud ymdrech i siarad y Gymraeg yn awr gyda'i phlant, "Watchan Cyw yn y bore, mam-gu yn siarad Cymraeg, gŵr yn Sysneg, dim ond fe yn y tŷ. Mam-gu da fi. Siarad lot mwy o Gymraeg 'da [Enw mab], ond Wenglish withe."

Cartref Saesneg oedd gan fam arall, er bod ei thad yn siarad Cymraeg. Roedd hithau wedi symud i bentref mwy Cymraeg, ac yn defnyddio mwy o Gymraeg oherwydd hynny. Roedd hi wedi mynychu ysgol gyfun Gymraeg, ond heb ddefnyddio'r iaith gyda'i chydnabod. Bellach byddai'n defnyddio'r Gymraeg i ryw raddau gyda'i phlentyn, "ond wedi symud i [Enw lle], a siarad lot o Gymrag nawr. Siarad hanner a hanner nawr, da'r plentyn."

Roedd gan fam arall gefndir mwy Cymraeg. Roedd hi wedi dod i siarad llawer mwy o Gymraeg yn gyffredinol, ond doedd dim amheuaeth am ei hiaith gyda'i gŵr a'i phlentyn, "Dw i wedi siarad Cymrag gartref da ngŵr a mhlentyn."

Roedd peth amrywiaeth yn ôl ardal, gyda mamau yng Ngheredigion a Sir Gâr yn amlwg yn siarad mwy o Gymraeg gyda'u plant ar ddiwedd y sesiynau. Roedd y llinell sail, fodd bynnag ychydig yn wahanol, gyda llai yng Ngheredigion yn siarad Cymraeg yn bennaf gyda'u plant ar gychwyn yn sesiynau.

Graff 5: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg â'u plant yn ôl ardal



Ar gychwyn y cwrs, dim ond 'weithiau' roedd 14 o'r 16 o famau o Geredigion yn siarad Cymraeg â'u plant, ac mae'r cynnydd defnydd yn amlwg yno. Roedd hanner mamau Sir Gâr eisoes yn defnyddio'r Gymraeg yn bennaf gyda'u plant, ac 8 o 19 o famau Gwynedd yn gwneud hynny, ac eto ceir cynnydd amlwg yn y mannau hyn hefyd.

Crynodeb arferion iaith gyda phlant

Tra bo'r holiaduron yn nodi bod y mamau'n gyffredinol yn siarad mwy neu lawer mwy o Gymraeg gyda'u plant ar ôl y cwrs, daeth yn glir bod hyn yn amrywio ac yn dibynnu ar sawl ffactor a oedd yn cynnwys

i) cefndir cartref y fam
ii) mewnfudo o Loegr
iii) iaith partner: yn dramorwr, o Loegr, yn ddi-Gymraeg, neu'n siarad Cymraeg
iv) sgiliau'r fam yn y Gymraeg
v) iaith y gymdogaeth
vi) mynychu cylch meithrin Cymraeg

Po fwyaf cadarnhaol o ran y Gymraeg yr oedd yr elfennau hyn, mwyaf oll o Gymraeg y byddai'r fam yn ei siarad gyda'i phlant.

3 Defnydd o iaith gydag aelodau'r teulu

Gofynnwyd am allu siarad Cymraeg partneriaid, rhieni, a brodyr a chwiorydd.

Roedd gan 11 frodyr a chwiorydd oedd yn siarad Cymraeg yn dda, ac 17 arall â rhai'n siarad Cymraeg yn "eitha da".

Roedd 27 o'r tadau'n siarad Cymraeg yn dda neu'n eitha da, a 25 o'r mamau. Rhyngddynt, byddai gan 30 o'r ymatebwyr rieni oedd yn siarad Cymraeg yn dda neu'n eitha da.

O fesur gallu ieithyddol y teulu'n gyffredinol, bernid bod gan 20 o'r ymatebwyr deuluoedd oedd yn gallu siarad Cymraeg yn dda neu'n eitha da, ond 'tipyn bach' o Gymraeg oedd gan y mwyafrif o deuluoedd.

Graff 6: Gallu aelodau agos y teulu i siarad Cymraeg



Roedd ymatebwyr yn siarad peth Cymraeg gyda'r teulu, ond roedd hyn yn amrywio wrth reswm yn ôl gallu aelodau unigol i siarad yr iaith. Wrth fesur arferion siarad yn gyffredinol ar ddechrau'r sesiynau, cafwyd mai ychydig oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson.

Graff 7: Mamau'n siarad Cymraeg â'u teulu yn ôl gallu ieithyddol y teulu



18% o'r ymatebwyr oedd yn siarad Cymraeg 'bob tro' neu'r 'rhan fwyaf o'r amser' ar gychwyn y cwrs. Ni fyddai 37% yn siarad Cymraeg o gwbl yn y teulu.

Erbyn diwedd y cwrs roedd yr ymatebwyr yn dweud eu bod yn siarad tipyn mwy o Gymraeg yn y teulu.

Graff 8: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg â'u teulu yn ôl gallu ieithyddol y teulu



Roedd 73% yn siarad mwy o Gymraeg neu lawer mwy o Gymraeg, a'r cynnydd mwyaf i'w weld mewn teuluoedd oedd yn siarad 'tipyn bach' o Gymraeg.

Meddai un fam, "Wha'r yn siarad Cymrag, ond hi ddim yn hyderus iawn – dim ond Cymrag ni'n siarad â hi, ond hi fel pidgeon Welsh. Siarad Cymraeg 'da nhad ond odd e'n hanner a hanner."

Yn achos mam arall o gartref cymysgiaith, byddai ei mam Saesneg bellach yn canu rhigymau Cymraeg, ond byddai ei phrofiadau gyda'r teulu yn dal yn gymysglyd, "Dim Cymrag gartre – dadi'n siarad Cymraeg, ond Mami'n Sysneg, ond nawr ma ddi'n canu 'Mi welais Jac y Do'. Mae M… a chwaer M… yn siarad Cymraeg – Sysneg on i'n siarad da nhw i ddechre, Sysneg o'n i'n siarad da nhw i dechre a fi still yn siarad yn Sysneg da nhw. Tad fi'n siarad Cymraeg – siarad hanner a hanner – a tad'cu, ond brawd fi wedi mynd i [ysgol Gyfun Gymraeg], ond byth yn siarad Cymraeg, ond nawr half and half."

Nid oedd modd i fam arall siarad Cymraeg â'i brodyr, gan fod un yn byw yn Lloegr ac un arall mewn gwlad dramor.

Roedd hi'n anodd i nifer o'r mamau oedd yn dysgu Cymraeg siarad Cymraeg â'r teulu am fod y gwahanol aelodau'n ddi-Gymraeg. Nid oedd neb yn nheulu un fam yn siarad Cyrmaeg, er bod ei mam hithau'n dysgu. Meddai yn awr, "Trio efo mam – mae hi'n dysgu. Hoffwn i siarad Cymraeg efo hi, ond does dim gyda hi. Newid nol a mlaen. Set phrases 'da mam."

Roedd gan un o'r dysgwragedd dad a oedd yn siarad Cymraeg, ac roedd hyn yn gymorth, "oedd dad yn siarad Cymraeg â nain – oedd rhaid siarad efo nain bob amser [Enw pentre]. Teulu mam ddim yn siarad Cymraeg."

Roedd teulu mam arall yn dod yn bennaf o Loegr, "Dim lot yn y tŷ – dwi'n dod o Lloegr, Rhieni yn byw yn Sir C… ond ces fy ngeni yn [tref yng Nghymru], ond y teulu'n symud pan o'n i'n tair oed."

Crynodeb arferion iaith gyda'r teulu

Roedd y rhan fwyaf o'r mamau'n defnyddio mwy o Gymraeg gyda'u teulu ar ôl y cwrs. Daeth yn amlwg bod mamau'n ei chael yn anodd newid iaith ar ôl arfer siarad iaith arall. Ond lle roedd gan aelodau'r teulu allu yn y Gymraeg, roedd ymdrech yn cael ei gwneud gan famau i siarad mwy o Gymraeg erbyn diwedd y cwrs. Roedd peth dylanwad ehangach gan y cwrs hefyd, wrth i aelodau teuluoedd y mamau ddechrau siarad mwy o Gymraeg.

4 Iaith gyda phartner

Roedd gan 30% o'r ymatebwyr bartner oedd yn siarad Cymraeg yn dda, ac roedd gan 4 arall bartner oedd yn siarad Cymraeg yn eitha da.

Graff 9: Gallu partner y mamau i siarad Cymraeg



Fodd bynnag, dim ond 9% oedd yn siarad Cymraeg bob tro neu'r 'rhan fwyaf o'r amser' gyda'r partner ar ddechrau'r cwrs.

Graff 10: Mamau'n siarad Cymraeg â'u partner, yn ôl gallu'r partner yn y Gymraeg



O'r mamau oedd â phartner yn siarad Cymraeg yn dda, ni fyddai 3 o bob 4 yn siarad Cymraeg yn rheolaidd â'r partner. Ni fyddai 58% yn siarad unrhyw Gymraeg gyda'u partner ac weithiau yn unig y byddai 32% arall yn siarad Cymraeg â nhw. Nid oedd y

rhan fwyaf o'r mamau yn y sesiynau wedi dewis gwneud y Gymraeg yn brif iaith eu cartref.

Erbyn diwedd y sesiynau cafwyd ymateb cadarnhaol a chalonogol o ran defnydd o'r Gymraeg gyda'r partner. Roedd 47% yn siarad mwy o Gymraeg neu lawer mwy o Gymraeg gyda'u partneriaid erbyn diwedd y cwrs.

Roedd hyn wrth reswm yn dibynnu ar allu'r partner yn y Gymraeg.

Graff 11: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg â'u partner, yn ôl gallu'r partner yn y Gymraeg



Lle mae'r partner yn gallu siarad yn dda, cafwyd cynnydd amlwg yn y defnydd o'r Gymraeg rhwng y mamau a'u partner erbyn diwedd y cwrs. Cafwyd peth cynnydd gyda phartneriaid is eu gallu yn yr iaith hefyd.

Cyn y cwrs byddai un fam yn siarad Cymraeg a Saesneg gyda'i phartner, ond roedd hyn bellach wedi newid, "O'n i'n siarad Cymrag a Sysneg 'da fe, ond nawr lawer mwy o Gymrag 'da fe."

Roedd gŵr mam arall wedi ceisio dysgu Cymraeg, "Mae fy ngŵr i wedi dysgu Cymraeg pan oeddwn i wedi dod i Gymru – oedd o'n 12 mlynedd yn ôl. Mae o wedi gwneud y cwrs Wlpan, a fi hefyd ond mae e ddim wedi cael cyfle i ymarfer ac wedi anghofio."

Meddai un arall, "fy ngŵr yn dod o [wlad arall]."

Yr un oedd ymateb mam arall, ""Dydy fy ngŵr ddim yn siarad Cymraeg – mae'n dod o [wlad dramor]. Meddai un arall, "Dyw fy nghariad ddim yn siarad Cymraeg ond 'da ni'n gwylio S4C – Cyw."

Byddai un fam yr oedd ei gŵr yn siarad Cymraeg yn ei chael yn anodd newid, "Fi a'r gŵr – ar gwyliau ac dim isio i bobl ddeall be ti'n gwneud ni'n defnyddio fe, ond ddim fel arfer."

I un fam roedd cael plant yn sbardun i siarad Cymraeg gyda'i gŵr, "O'dd fy ngŵr a fi'n siarad Saesneg cyn i'r plant ddod – Nawr mae'r plant wedi dod ni'n trio siarad Cymraeg trwy'r amser."

Crynodeb arferion iaith gyda'r partner

Roedd cynnydd amlwg yn y defnydd o'r Gymraeg gyda'r partner os oedd hwnnw'n siarad Cymraeg. Daeth yn amlwg bod profiadau unigol y mamau'n dra gwahanol i'w gilydd, a bod y cynnydd yn y defnydd o Gymraeg gyda'r partner yn dibynnu ar fod gan y partner hwnnw wybodaeth o'r Gymraeg. Roedd cael plant yn gallu ysgogi mamau i siarad mwy o Gymraeg gyda'r partner.

5 Defnydd o iaith gyda ffrindiau

Roedd amrywiaeth o ran gallu ffrindiau'r mamau i siarad Cymraeg yn ôl ardal. Roedd hyn yn amrywio yn unol â'r canfyddiad cyffredinol am natur ieithyddol y gwahanol ardaloedd. Gwynedd oedd yr ardal fwyaf Cymraeg, yna Ceredigion, ac wedyn Sir Gâr.

Graff 12: Gallu ffrindiau i siarad Cymraeg, yn ôl ardal



Roedd mwy na hanner ffrindiau 53% o famau Gwynedd yn siarad Cymraeg, 31% o famau Ceredigion, ac 19% o famau Sir Gâr.

Lleiafrif oedd yn siarad Cymraeg gyda'u ffrindiau ar gychwyn y cwrs. Ni fyddai 26% byth yn gwneud, ac 'weithiau' y byddai 59% yn gwneud.

Graff 13: Mamau'n siarad Cymraeg â ffrindiau, yn ôl cyfran o ffrindiau sy'n siarad Cymraeg



Erbyn diwedd y cwrs cafwyd cynnydd amlwg yn y nifer a siaradai fwy o Gymraeg gyda'u ffrindiau.

Graff 14: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg â ffrindiau, yn ôl cyfran o ffrindiau sy'n siarad Cymraeg



Roedd 19% o'r mamau'n siarad 'llawer mwy o Gymraeg' a 56% yn siarad 'mwy' o Gymraeg erbyn diwedd y cwrs.

Roedd profiad mamau unigol yn amrywio yn ôl eu hamgylchiadau. Roedd un fam yn hynod falch iawn ei bod bellach yn teimlo'n ddigon hyderus i siarad Cymraeg gyda'i ffrind gorau, a hyn wedi estyn at anfon negeseuon testun yn Gymraeg, "Ffrind gore da fi'n siarad Cymraeg.. texto'n Gymraeg nawr, 'cwl' – c – w – l." Byddai'n fodlon siarad Cymraeg â'i ffrindiau, er nad oedd ei gŵr yn deall, "Siarad lot fwy o Gymrag nawr. Rhai o ffrindie gore fi'n siarad Cymrag. Mwy o Gymrag da fi nawr – y gŵr yn put out, so fe'n gwbod beth fi'n siarad amdano. " Byddai hi hefyd yn awr yn barod i newid iaith ymysg un grŵp o ffrindiau, "Yn y grwp ante-natal, siarad Sysneg, ond dechre'n Gymrag nawr."

Roedd mam arall yn cynnwys dwy ffrind ymysg y rhai y byddai hi bellach yn siarad Cymraeg â nhw. Wrth siarad â'i ffrindiau yn y cylch, meddai mam arall na fyddai hi bellach yn gallu siarad Saesneg â nhw, er iddyn nhw ddechrau eu perthynas â'i gilydd trwy'r Saesneg, "Allen i byth siarad Sysneg da chi'n nawr – bydde siarad Sysneg nawr yn really odd – txto nawr hefyd." Pan oedd hi ag un arall o'r mamau yng nghwmni ffrindiau Saesneg, byddai'n ei chael yn rhyfedd siarad Saesneg gyda hi yn eu cwmni nhw, "Rhai [ffrindiau] yn siarad Sysneg da'i gilydd – on i'n temlo'n really odd yn siarad Sysneg da ti [wrth ei ffrind]." O ran ei hymddygiad ieithyddol wedi'r cwrs meddai, "Sai di bod run peth ddar 'ny."

Roedd un fam oedd wedi dysgu'r Gymraeg erbyn hyn wedi datblygu hyder i siarad gyda'i ffrindiau a'i chymdogion Cymraeg, "Mwy nawr na cyn y cwrs? Ydw. Mwy o 'confidence' 'da fi."

Codi hyder yn y Gymraeg oedd profiad un arall, "Cymdogion yn siarad Cymraeg… Teimlo'n mwy hyderus ar ol y cwrs."

Nid oedd gan un fam a siaradai Gymraeg bellach gyda'i gŵr ffrindiau Cymraeg, "Cymdogion a ffrindie rili'n Saesneg."

Diffyg ffrindiau Cymraeg oedd profiad mam arall, ond roedd yn gallu dod o hyd i famau eraill a oedd yn siarad Cyrmaeg trwy'r ysgol, "Dim ffrindiau sy'n siarad Cymraeg trwy'r amser ond dwi'n gallu siarad Cymraeg gyda rhieni yn yr ysgol – fy mhlant yn mynd i Ysgol Gymraeg – llawer o rieni sy'n siarad Cymraeg ac athrawon hefyd."

Profiad cymharol debyg oedd gan fam arall. Wrth sôn am ei defnydd o'r Gymraeg gyda ffrindiau, meddai, "Dim lot – weithiau gyda cymdogion, ond fel arfer dwi'n siarad Saesneg. Rhai geiriau – mae'n dibynnu ar y situation – how much time I've got. Siarad gyda fy ffrind [Enw] sy'n cymryd grŵp Hwyl a Chân yn y pnawn yn y dre."

Byddai mam arall yn cael cefnogaeth ei ffrindiau i'w helpu i siarad Cymraeg, "Mae ffrindiau sy'n neud ymdrech i siarad i fi yn Gymraeg nawr achos nhw'n gwbod fi'n dysgu a nhw ddim yn dechra siarad yn Saesneg. Yn syth maen nhw'n dweud yn Gymraeg – ond helpu os fi ddim yn siŵr. Os rhywun yn dechrau yn Gymraeg ti'n gwneud ymdrech i ateb yn Gymraeg."

Erbyn diwedd y cwrs roedd un fam wedi dod i siarad Cymraeg gyda chymdogion, "Gyda rhai cymdogion sy'n siarad Cymraeg, dwi wedi dechrau siarad Cymraeg gyda nhw – mae'n iawn."

Yr un oedd sefyllfa mam arall a oedd yn llai rhugl, "my best friend is Welsh and my neighbours – I was doing a course in Canolfan Iaith A… – neighbours speak to me in Welsh. Dwi'n deall llawer o Cymraeg."

Crynodeb arfer iaith gyda ffrindiau

Roedd yn glir bod llawer mwy o famau'n siarad Cymraeg gyda ffrindiau ar ddiwedd y cwrs. Roedd prinder ffrindiau Cymraeg yn anhawster i rai, er bod mamau'n gallu dod o hyd i ffrindiau newydd trwy'r cylch chwarae neu'r ysgol. Byddai rhai ffrindiau Cymraeg yn cefnogi rhai o'r mamau wrth siarad Cymraeg â nhw.

6 Mamau'n defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

Roedd gan ganran gymharol uchel o'r mamau gyfeillion mewn mannau cymdeithasu fel y caffe a'r dafarn oedd yn gallu siarad Cymraeg.

Graff 15: Gallu pobl yn y caffi neu'r dafarn i siarad Cymraeg



Roedd chwarter neu ragor o ffrindiau 63% ohonynt yn gallu siarad Cymraeg. Ond byddai 46% ohonynt byth yn siarad Cymraeg gyda'u ffrindiau a 40% arall yn siarad Cymraeg 'weithiau'.

Graff 16: Mamau'n siarad Cymraeg â phobl yn y caffi neu dafarn, yn ôl cyfran y bobol sy'n siarad Cymraeg



Nid oedd y defnydd o'r Gymraeg yn y caffi neu'r dafarn yn cyfateb i allu'r mynychwyr i'w defnyddio. Gallai hyn fod am nad oedd y mamau'n hyderus yn ei defnyddio, neu am fod yr iaith a siaredir mewn sefyllfa o'r fath yn dueddol o droi at y Saesneg lle nad yw pawb yn ei siarad.

Erbyn diwedd y sesiynau roedd y mamau'n dueddol o ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y caffi a'r dafarn. Roedd 57% o'r mamau'n defnyddio mwy o Gymraeg yn y sefyllfa hon, ond roedd hyn yn dibynnu wrth reswm ar allu eraill i siarad Cymraeg.

Roedd dirywiad bywyd pentrefol yn rhwystr i un fam, gan nad oes canolfannau ymgynnull yn ei phentref erbyn hyn, " – dwi'n credu bod llawer o bobol yn siarad Cymraeg ond mae'r Swyddfa Bost wedi cau – does dim llawer o le, dim siop – da ni'n byw – ddim ar bwys y pentre."

Problem a gâi un o'r mamau, a oedd yn ddysgwraig, oedd bod siaradwyr Cymraeg yn siarad yn rhy gyflym, "Problem siaradwyr Cymraeg methu siarad efo pobl ail iaith – weithiau dwi'n gweld pobl iaith gynta'n siarad yn gyflym iawn – dwi ddim yn gallu cael sgwrs weithiau."

Roedd un arall yn cael bod ei diffyg hyder ei hun yn rhwystr, "dim llawer o hyder gyda fi i siarad gydag oedolion – rhan fwya dwi'n siarad gyda plant." Roedd hyn yn fwy o anhawster yn achos mam a oedd yn llai rhugl, "Can't think quick enough. I have to think in English and translate it in my head. People think I'm not going to answer."

Problem arall oedd bod rhai siaradwyr Cymraeg yn troi at y Saesneg, er bod rhai a fyddai'n addysgu'r iaith yn gymorth, "Rhai yn. Dwi'n gweld os byddan nhw wedi bod yn gweithio fel athrawes maen nhw'n dda iawn yn cadw mewn Cymraeg a pobl eraill yn polite iawn a newid i Saesneg os ti methu ateb!"

Graff 17: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg â phobl yn y caffi neu dafarn, yn ôl cyfran y bobol sy'n siarad Cymraeg



Nid oedd gwahaniaethau sylweddol yn ymddygiad y mamau mewn gwahanol sefyllfaoedd. Holwyd hefyd am eu hiaith gyda ffrindiau, gyda chymdogion, ac wrth siopa. Roedd 15% yn siarad y Gymraeg yn bennaf gyda ffrindiau, 18% gyda chymdogion, 14% yn y caffi neu'r dafarn ac 14% wrth siopa.

Ar yr ochr negyddol, ni fyddai 26% byth yn siarad Cymraeg gyda ffrindiau, ni fyddai 48% byth yn siarad Cymraeg gyda chymdogion, ac ni fyddai 46% byth yn ei defnyddio yn y caffi neu'r dafarn.

Wrth siopa byddai 14% yn defnyddio'r Gymraeg yn bennaf, ond ni fyddai 41% byth yn defnyddio'r Gymraeg, a 46% yn ei defnyddio weithiau.

Erbyn diwedd y sesiynau, tystiolaeth y mamau oedd eu bod yn defnyddio tipyn mwy o Gymraeg yn y sefyllfaoedd hyn. Byddai 17% yn siarad llawer mwy o Gymraeg yn gymdeithasol, a 47% arall yn siarad mwy o Gymraeg.

Graff 18: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg yn gymdeithasol



Meddai un fam ei bod wedi dod i siarad llawer mwy o Gymraeg erbyn diwedd y cwrs, "Os os rhywun yn siarad Cymrag, ateb nôl yn Cymrag nawr – o'r blan siarad Sysneg, ond nawr rwyddach yn Cymrag."

Roedd un fam a oedd yn ddysgwraig yn ei chael hi'n anodd teimlo'n gartrefol mewn cylch o famau oedd yn fwy Cymraeg. Meddai, "Fi'n teimlo'n eitha isolated yno – stryglan i ddilyn be mae pobl yn ddweud weithiau. Sa'i'n moyn bod yn wahanol – eisiau gallu dilyn popeth a bod yn rhan o sgwrs. Rhaid iddyn nhw siarad yn araf 'da fi – fi'n gorfod gofyn. Mor hawdd i switso i'r Saesneg – rhy hawdd – ac maen nhw'n gwneud hynny."

Roedd pwyslais rhai siaradwyr Cymraeg ar gywirdeb iaith yn gallu bod yn rhwystr. Pan fynychodd un fam gyfarfod o Ferched y Wawr, cynigiodd rhywun yno 'te a coffi'. Yn ddisymwth ynganodd nifer o'r mynychwyr 'ch' yn uchel i'w chywiro. Roedd hyn yn lladd hyder.

Roedd hi'n amlwg wrth holi'r mamau eu bod yn gwybod ar y cyfan a oedd rhywrai mewn gwahanol fannau'n siarad Cymraeg, ac felly bydden nhw wedi dod i siarad Cymraeg lle byddai hynny'n bosibl. Meddai un fam, "Ddim yn y Swyddfa Post – Sysneg sy'n y Swyddfa Post, ond siopa – siarad Cymrag lot."

Gwelwyd peth amrywiaeth yn y cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol yn ôl ardal. Roedd 78% o famau Ceredigion yn defnyddio mwy neu lawer mwy o

Gymraeg, 63% o famau Sir Gâr, a 46% o famau Gwynedd. Ni chafwyd digon o ymatebion o Gastell-nedd Port Talbot i fod yn ystadegol berthnasol. Gellir priodoli'r gwahaniaeth yn y cynnydd i lefel defnydd cychwynnol o'r iaith gan y mamau ac i natur ieithyddol yr ardaloedd.

Graff 19: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg yn gymdeithasol, fesul ardal



Crynodeb siarad Cymraeg yn y gymuned

Erbyn diwedd y cwrs roedd tystiolaeth bod mamau wedi magu mwy o hyder i siarad mwy o Gymraeg yn gymdeithasol. Roedd hyn yn dibynnu ar y canlynol:

i. cyfle i wneud hynny
ii. lefel eu sgiliau iaith eu hunain
iii. eu hyder eu hunain
iv. ymateb siaradwyr Cymraeg

7 Defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith

Roedd pawb yn siarad Cymraeg yn y gwaith yn achos 18% o'r mamau a atebodd ac a oedd yn gweithio. Roedd mwy na hanner yn siarad Cymraeg yn achos 24% arall. Roedd rhwng hanner a chwarter y gweithwyr yn siarad Cymraeg yn achos 18% o'r mamau, a llai na chwarter yn achos 26%. Nid oedd neb yn siarad Cymraeg yn y gwaith yn achos 14% o'r mamau.

Dywedodd 25% o'r mynychwyr na fyddent byth yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, a 49% arall yn dweud mai 'weithiau' y bydden nhw'n ei defnyddio. Roedd 23% yn dweud eu bod yn ei defnyddio bob tro neu gan amlaf.

Roedd y canrannau hyn yn dangos ychydig llai o ddefnydd o'r Gymraeg na'r cyfleoedd a oedd ar gael, ond byddai hyn yn ymddygiad ieithyddol disgwyliedig.

Graff 20: Mamau'n siarad Cymraeg yn y gwaith



Nid oedd nifer o'r mynychwyr wedi dychwelyd i'r gwaith erbyn diwedd y sesiynau. Oherwydd hyn nid oedd 57% o'r mamau wedi llenwi'r rhan hon o'r holiadur. O blith y gweddill dywedodd 35% eu bod yn siarad llawer mwy o Gymraeg, a 28% yn dweud eu bod yn siarad mwy o Gymraeg yn y gwaith.

Graff 21: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg yn y gwaith



Roedd y mamau'n ymwybodol iawn erbyn diwedd y cwrs o'r posibiliadau i siarad Cymraeg yn y gwaith. Yn achos un roedd y cyfle'n brin, "Fi'n gwitho yn ysbyty [Enw lle]… , sdim lot o Gymrag fanna. Nyrso. Dim ond un ferch arall yn siarad Cymraeg ar y ward da fi. Ond dim lot yn [Enw lle]… . Gwell mewn rhai jobs – os fi'n mynd i [Enw lle]… , iawn cael rhywun sy'n siarad Cymrag, lot o bobol hen ddim yn lico siarad Sysneg."

Prinder siaradwyr Cymraeg yn y gwaith oedd yn rhwystro mam arall rhag siarad llawer o Gymraeg, "Gwitho yn [Enw siop]… – un bachan yn siarad Cymraeg, sai'n siarad Cymrag fanna, un bachgen yn siarad Cymrag – dysgu, so fi'n siarad Cymrag da fe." Gweithio mewn siop roedd mam arall, ac roedd ei phrofiad hi'n fwy cadarnhaol, "Dwi'n gweithio yn y [Enw siop]… ar hyn o bryd – rhai cwsmeriaid yn dod i mewn a cofio bod chi'n gallu siarad Cymraeg – a pan dwi ar y til, maen nhw'n clywed ac yn dod i siarad Cymraeg hefyd. Cael cyfle i siarad Cymraeg yn y siop, yn y pentre."

Roedd un fam yn athrawes mewn ysgol ddwy ffrwd, a chafodd ofal y ffrwd Gymraeg yn yr ysgol honno. Roedd un fam yn therapydd harddwch, a byddai bellach yn gallu defnyddio'r Gymraeg i ryw raddau gyda chwsmeriaid Cymraeg, "People used to speak to me in Welsh – dwi'n deall – mae e'n help mewn ffordd."

Roedd un fam yn ymwybodol y gallai'r Gymraeg fod o werth iddi yn y dyfodol er nad oedd ar hyn o bryd yn gymorth yn ei gwaith ymchwil, "Dim lot, achos mod i'n weithio fel ..gyda research. Ond dwi'n gobeithio bydd Cymraeg yn help i fi yn y future achos da ni isie aros yng Nghymru."

Roedd un fam yn rhedeg cwmni gyda'i gŵr, ac yn ymwybodol o fanteision y Gymraeg, "Rhedeg cwmni … cwmni newydd. Trio adeiladu'r cwmni lan. Fi'n credu bod y Gymraeg yn help. Ni'n trio ennill contract gyda [enw banc] – Hoffen nhw lle nes at Sir Benfro/Sir Gaerfyddin – fi'n gwpod bod nhw'n moyn lle sy'n siarad Cymraeg."

Er nad oedd neb yn siarad Cymraeg yn ei man gweithio presennol, roedd mam arall yn gobeithio y byddai'r iaith yn ddefnyddio yn y dyfodol, "Gweithio gyda'r [Enw

sefydliad]. Ar maternity leave rwan. Bydd y Gymraeg yn help yn y gwaith gobeithio. Pobl eraill … ddim yn siarad Cymraeg.

Nid oedd y sesiynau hyn wrth reswm yn cynnig cyfle i wella sgiliau ysgrifenedig, felly derbyniwyd mai siarad y Gymraeg ar lefel gymharol anffurfiol yn y gwaith oedd y nod.

Crynodeb siarad Cymraeg yn y gwaith

Roedd mamau'n ymwybodol o bosibiliadau siarad Cymraeg yn y gwaith, ond nid oedd llawer ohonynt mewn sefyllfa i allu gwneud hynny oherwydd natur eu gwaith neu oherwydd diffyg siaradwyr Cymraeg eraill yn y gweithle.

Ystyriaeth: Byddai'n dda i weithwyr sy'n siarad Cymraeg wisgo bathodyn i nodi hynny.

8 Defnyddio'r Gymraeg gyda siopau a sefydliadau

Roedd yn glir bod cryn sylw wedi'i roi yn y sesiynau i siarad y Gymraeg gyda sefydliadau, a bod mynychwyr wedi cael cyngor pendant i fagu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gyntaf wrth fynd i siopau ac wrth gysylltu â sefydliadau, naill ai'n bersonol neu ar y ffôn.

Ar gychwyn y sesiynau ni fyddai 41% byth yn defnyddio'r Gymraeg wrth siopa, ac weithiau byddai 45% yn ei defnyddio. 13% fyddai'n ei defnyddio bob tro neu gan amlaf.

Graff 22: Mamau'n siarad Cymraeg wrth siopa

Erbyn diwedd y sesiynau dywedodd 47% o'r rhai a ymatebodd eu bod yn siarad mwy o Gymraeg, ac 14% arall yn dweud eu bod yn siarad llawer mwy o Gymraeg.

Graff 23: Mamau'n siarad mwy o Gymraeg yn y dref



Roedd mamau'n dueddol o wybod pwy oedd yn gallu siarad Cymraeg mewn gwahanol fannau masnachu neu mewn sefydliadau. Meddai un fam, yng nghyswllt y llyfrgell a'r ganolfan hamdden, "siarad Cymraeg – gwneud e mwy ar ôl y cwrs". A phrofiad un arall oedd, "Dwi yn os dwi mewn siop dwi'n adnabod y bobol, ond ddim

yn y banc neu rhywle mawr. Fel yn [Enw lle] … a'r cigydd. Dwi yn trial neud e yn Gymraeg." Meddai hi y byddai cael bathodyn 'Cymraeg' yn help, "os dwi ddim yn adnabod nhw dwi bach yn embarassed."

Roedd adnabod rhywun mewn siop neu sefydliad yn gymorth i fam a oedd wedi dysgu'r iaith i safon gymharol uchel. Meddai, "Weithia – fi'n trio siarad Cymraeg yn [Siop Gymraeg]. Rhywbeth syml iawn – fi'n hapus i drial. Os ydy e'n rhywbeth mwy cymhleth fi'n dechrau teimlo'n ofnus. Ond weithiau fi'n trio mewn siop. Fi'n siarad Cymraeg 'da ysgrifenyddes yn swyddfa'r ysgol… Person saff yw [Enw] 'ease me in'. Bwysig i ffeindio pobl saff – pobl sy'n nabod fi a phobl sy'n deall."

Roedd hyder yn rhwystr o hyd i fam arall, "Haws siopa yn y dre – ddim yn defnyddio llawer yn y siopau, canolfan hamdden – ond ydw yn [Enw lle]… – obviously – dim llawer o hyder gyda fi i siarad gydag oedolion – rhan fwya dwi'n siarad gyda plant."

I fam a oedd wedi magu hyder, roedd pethau'n llai problematig, "Fi'n siarad Cymrag yn y banc – gwbod bod menyw Cymraeg yn y banc yn siarad Cymrag. Wedi mynd gynta i siop, ond siarad Sysneg nôl. Nhw sy'n edrych yn ffôl, nid fi."

Roedd mam arall wedi dechrau siarad Cymraeg mewn siopau ar ôl symud i ardal fwy Cymraeg, "Yn siarad Cymraeg yn y butchers.. Wedi neud e – byth wedi neud e os on i yn [Enw lle]."

Roedd diffyg cefnogaeth sefydliadau i'r iaith yn gallu bod yn rhwystr hefyd, pa mor frwd bynnag y byddai'r fam. Dyma brofiad un fam, "ydw yn [Enw lle] – ond ddim lle arall – Saesneg fel arfer. Llyfrgell y dre – trio cael un llyfr Cymraeg bob tro – 'steer her towards a Welsh book'. "

Roedd mam arall wedi newid ei harferion siarad gyda sefydliadau, "Wedi ffono BT – bydden i byth wedi neud 'na o'r blan. Defnyddio Cymrag yn y llyfrgell – gwbod bod y boi yn siarad Cymrag, edrych os yw'r bathodyn na nhw. O'r blan bydden defnyddio Sysneg."

Roedd mynychwyr pob un o'r cyrsiau wedi derbyn rhestr o rifau ffôn Cymraeg gwahanol sefydliadau, ond roedd rhai wedi cael trafferth mawr i gael gwasanaeth Cymraeg synhwyrol gan y sefydliadau. Meddai un fam, "Ni wedi cael y list mawr o'r gwasanaethau sy' ar gael yn Gymraeg. Heb wneud 'to!"

Crynodeb defnyddio'r Gymraeg mewn siopau a chyda sefydliadau

Roedd hi'n fwy problematig i famau o ddysgwyr fagu hyder wrth drin y Gymraeg yn y sefyllfa hon. Weithiau byddai staff y sefydliadau ddim yn gefnogol. Roedd rhai mamau wedi magu digon o hyder i beidio teimlo'n chwithig. Yn gyffredinol byddai mamau'n dod i wybod ble roedd modd defnyddio'r Gymraeg, ond byddai cael staff i wisgo bathodyn yn gymorth i'r mamau.

9 Digwyddiadau

Roedd y maes yma oedd yn ymddangos yn fwy problematig o safbwynt mamau. Byddai'n anodd i rai fynd allan oherwydd eu plant ac nid oedd eraill yn mynd allan yn aml.

Roedd digwyddiadau a oedd yn anelu at blant, serch hynny, yn ymddangos yn boblogaidd. Meddai un fam, "Dydd Sul dwetha' [Enw Merch 1] wedi bod yn Canolfan Morlan gyda Martin Geraint. Yn y car da ni gyda CD TWF Martyn Geraint – mae [Enw Merch 1] yn hoffi canu."

Roedd mam arall yn cynllunio mynd i Eisteddfod yr Urdd, "mynd i Eisteddfod yr Urdd fel grŵp. Trefnu ein hunain. O'n i'n mynd i Ti a Fi ond dwi'n gweithio erbyn hyn."

Yr ysgol oedd ffynhonnell gweithgareddau i fam arall, ond roedd y rhain bellach wedi dod i ben, "Dim llawer. Yn yr ysgol – ond dim llawer arall. Blwydyn dwetha y PTA wedi trefnu meetings i rieni i ymarfer siarad, ond maen nhw wedi stopio. "

Roedd un fam wedi mynd i gyngerdd lle roedd y cyflwyniadau'n ddwyieithog, a hynny'n gymorth iddi gael cadarnhad ei bod wedi deall yn iawn, "Dwi wedi mynd i clywed côr – cyngerdd côr a roedd bach o introduction mewn Cymraeg ac ar ôl mewn Saesneg. Hwnna'n test dda – "O, dwi'n deall yn iawn", ond dim byd complicated."

Aeth hithau hefyd i Bingo yn Gymraeg. Gweithgareddau i blant ddenodd fam arall, "BBQ yn yr haf – pawb yn dod. Bouncy Castle a phethau fel'na. Sa'i'n siwr ydy hynny'n helpu."

Byddai mam arall yn cymryd rhan gyda grŵp dawnsio gwerin, gan ddefnydio Cymraeg yno.

Ac eithrio sesiynau oedd yn cael eu trefnu i blant, doedd y mamau ddim yn mynd i lawer o ddigwyddiadau Cymraeg eraill. Byddai'n dda i sefydliadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, e.e. ysgolion Cymraeg, Mentrau Iaith, ystyried pa weithgareddau neu ddigwyddiadau y gellid eu trefnu i hybu mamau yn eu defnydd o'r Gymraeg.

Meddai un fam ar ddiwedd y cwrs, "Gutted, ar ôl i'r sesiyne ddod i ben." Mae'r angen yn amlwg, ond y cyfleoedd addas ar hyn o bryd yn brin.

Crynodeb o fynychu digwyddiadau

Nid oedd llawer o'r mamau'n mynychu digwyddiadau Cymraeg i oedolion. Roedd digwyddiadau Cymraeg wedi'u hanelu at blant yn boblogaidd, a byddai croeso i ragor o ddigwyddiadau o'r math yma, a fyddai'n dod â mamau at ei gilydd, ac yn rhoi cyfle iddyn nhw fwynhau digwyddiadau Cymraeg gyda'u plant. Roedd mamau'n gweld bod hyn yn cyfrannnu'n gadarnhaol tuag at fagu eu plant yn y byd Cymraeg.

10 Darllen llyfrau Cymraeg a chyfryngau Cymraeg

Graffiau 24: Canrannau o famau'n defnyddio gwahanol gyfryngau Cymraeg



Roedd defnydd rhieni o'r cyfryngau Cymraeg yn amrywio. Roedd y sesiynau wedi tynnu sylw'n benodol at lyfrau Cymraeg, rhaglenni teledu, ffilmiau a chaneuon i blant. Ar gychwyn y cwrs, nid oedd 68% byth yn gwrando ar Radio Cymru. Byddai 25% yn gwrando weithiau, a 6% yn ei ddewis yn gyson.



Ar ddechrau'r sesiynau nid oedd 60% byth yn gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg. Byddai 39% yn gwrando weithiau, ac 1% yn gwrando'n gyson.



Nid oedd 65% yn darllen cylchgronau Cymraeg neu'r papur bro. Roedd 29% yn darllen weithiau, ac 1% yn darllen yn gyson.

Nid oedd 43% byth yn darllen llyfrau Cymraeg. Roedd 39% yn darllen weithiau, ac 18% yn darllen yn gyson.

Roedd mwy o famau'n gwylio teledu Cymraeg. Dim ond 20% oedd byth yn gwylio S4C. Roedd 65% yn gwylio weithiau ac 15% yn gwylio'n gyson. Efallai mai'r siom yn y ffigurau hyn yw nad yw'r ffigur o 15% yn uwch.



Wrth lunio cyfartaledd o'r rhifau hyn, cafwyd nad oedd 28% yn gwneud unrhyw ddefnydd ystyrlon o gyfryngau Cymraeg. Roedd 67% yn eu defnyddio weithiau, a 4.5% oedd yn gwneud defnydd cyson.



Yn sgil y sesiynau, daeth y mynychwyr yn fwy ymwybodol o'r cyfryngau Cymraeg. Trefnodd hwyluswyr rhai grwpiau ymweliadau â'r siop llyfrau Cymraeg leol. Meddai mamau bod y cwrs wedi dwyn sylw'r mynychwyr at DVDs oedd ar gael i blant. Roedd un yn ymwybodol erbyn hyn o nifer o'r rhaglenni oedd ar gael, "Pippa Pinc yn Gymraeg. Cael menthyg DVDs gan y bobl drws nesa – Tecwyn y Tractor. [Enw Merch 1] yn gwylio Cyw ar y Cyfrifiadur – Heini – gweld Heini yn yr Ysgol Gymraeg." Roedd mam arall a oedd yn ddysgwraig yn gwylio rhaglenni S4C gyda'i merch ac yn defnyddio llyfrau, "Magu plant yn Gymraeg. Teledu – S4C – Cyw. Papa Pink a Bob y Builder… Lot o lyfrau Cymraeg 'da ni – Smot a phethau. [Enw merch] weithiau'n siarad Cymraeg yn gyntaf! Mae hi'n deall Cymraeg ond yn ateb yn Saesneg."



Roedd un arall yn ymwybodol o raglenni teledu a llyfrau i blant, "Gwylio Cyw – siarad efo hefyd. Cbeebies – canu – gemau. Llyfrau – llawer iawn o llyfrau Cymraeg gan [Enw plentyn]." Sylwadau o'r un math oedd gan un arall, "am DVDs am Gymru – be sy ar gael i blant, llyfrau, DVDs teganau."

Roedd un arall eto wedi cael ei goleuo gan y cyrsiau, "Ie, mae wedi dangos mwy o pethau sydd ar gael i'r plant – pethau do'n i ddim wedi gwybod o'r blaen. DVDs".

Erbyn diwedd y cwrs roedd 42% yn gwrando ar fwy o radio Cymraeg, 76% yn gwylio mwy o deledu Cymraeg, 50% yn darllen mwy o lyfrau neu bapurau Cymraeg, 32% yn gwrando ar fwy o fiwsig Cymraeg, 34% yn gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar y we, 43% yn defnyddio mwy o Gymraeg wrth ebostio neu decstio. Yn gyfffredinol byddai 66% yn gwneud mwy o ddefndd o gyfryngau Cymraeg.

Crynodeb o ddefnydd o'r cyfryngau Cymraeg

Y teledu oedd y cyfrwng Cymraeg mwyaf poblogaidd cyn cychwyn y cwrs, ond un o bob pump oedd yn gwylio S4C yn gyson. Cafodd mamau wybodaeth am sawl math o gyfryngau Cymraeg yn ystod y cwrs, ac erbyn diwedd y cwrs meddai'r mynychwyr eu bod ar y cyfan yn gwneud defnydd tipyn mwy helaeth o'r cyfryngau Cymraeg.

Meddai mamau eu bod yn gwneud defnydd yn benodol o DVDs a deunyddiau i blant, ac roedd yn amlwg eu bod yn gweld bod cyfryngau Cymraeg yn gymorth iddynt fagu eu plant yn y byd Cymraeg.

11 Sgiliau Cymraeg a hyder y mynychwyr

Dim ond 4.5% o'r mamau oedd yn 'hapus iawn' gyda'u sgiliau yn y Gymraeg yn gyffredinol ar gychwyn y sesiynau. Roedd 33% arall o'r mamau'n 'hapus' gyda'u sgiliau Cymraeg. Roedd 40% arall yn 'weddol hapus'. Cafwyd y sgoriau hyn trwy gyfuno'u barn am eu sgiliau siarad, gwrando, ysgrifennu a darllen.

Graff 25: Hapusrwydd mamau gyda'u sgiliau Cymraeg yn gyffredinol



Roedd eu hapusrwydd, neu eu hyder, wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar yn amrywio yn ôl y sefyllfa.

	Hapus iawn	**Hapus**	**Cyfanswm**
Gyda phlant	51%	31%	82%
Gyda'r teulu eang	21%	25%	46%
Gydag athrawon	18%	29%	47%
Yn y gwaith	18%	24%	42%
Yn gymdeithasol	13%	18%	31%
Siarad yn y dref	12%	21%	32%
Gyda swyddogion	12%	10%	22%
Yn gyffredinol	10%	21%	31%

Roedd eu hapusrwydd wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda phlant yn llawer uwch nag mewn unrhyw sefyllfa arall. Dim ond gyda phlant roedd hanner y mamau'n gwbl hapus wrth siarad Cymraeg. Ym mhob sefyllfa arall un o bob deg neu un o bob pump o famau oedd yn gwbl hapus.

Gall hyn adlewyrchu i raddau y nifer o famau oedd yn dal i ddysgu'r iaith. Roedd mwyafrif mamau tri o'r lleoliadau a welwyd yn ddysgwyr. Meddai un o'r rhain mai siarad â phlant oedd ei phrif gymhelliad i ddysgu'r iaith, "Ar ôl cael [Enw Merch 1], ro'n i'n deall bod hi'n mynd i dysgu Cymraeg felly … ac hefyd y plant drws nesa – maen nhw'n siarad Cymraeg ac ron i isio siarad a nhw."

Un o rinweddau'r sesiynau i nifer o famau oedd rhoi cyfle iddyn nhw siarad Cymraeg â'i gilydd, "Siarad gyda pobl eraill yn Gymraeg a cael siawns i siarad Cymraeg".

Roedd y cwrs wedi arwain at roi cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg, "Da ni wedi cwrdd gyda'n gilydd am coffi ar ol y cwrs. Neis i dal i fyny efo pobl i weld beth maen nhw'n gwneud."

I fam arall, un o brif fanteision y cwrs oedd cynyddu hyder wrth siarad, "Wedi helpu gyda hyder dwi'n meddwl a jyst gyda meddwl am y pobol sy'n gallu trial siarad Cymraeg a nhw – i weld mwy o cyfleoedd."

Roedd yr ysgol feithrin yn brif gymhelliad i fam arall siarad Cymraeg, "Ond dweud y gwir, y rheswm am hwn ydy'r ysgol feithrin a'r ysgol – a bigger influence than the course – incentive i mi siarad Cymraeg achos bod [Enw merch] yn yr ysgol." Angen y fam hon oedd cael cwrs a fyddai'n rhoi cymorth penodol iddi i siarad Cymraeg gyda'i phlentyn, "Yes, ond rhywbeth wahanol yn fwy ddefnyddiol i fi. Y pheth fwya ddefnyddiol i fi yw – an opportunity to practice simple phrases like 'What did you do in school today' etc – correct, simple sentences – cwrs Cymraeg mam a'i phlentyn." Roedd y cwrs serch hynny wedi bod o gymorth iddi, "Confidence to speak to people – correct me in a good/encouraging way."

I fam arall oedd yn dysgu'r Gymraeg, roedd hyder yn broblem, "Mond hyder dwi'n meddwl. Dim byd gyda'r bobol eraill."

Roedd mam arall a oedd yn meddu ar sgiliau ieithyddol uchel fel dysgwraig yn nodi problem nad oedd yn ymwneud â hyder, "Can't think quick enough. I have to think in English and translate it in my head. People think I'm not going to answer." Roedd hi'n ei chael hi'n haws siarad gydag athrawon am fod athrawon yn deall sefyllfa dysgwyr, "Gyda'r ysgol, achos maen nhw yn gwbod mod i'n dysgu maen nhw'n dweud popeth yn Gymraeg i mi gynta fel neges a mae'n rhaid imi ddweud e'n ol yn Saesneg (i wneud siŵr)." Roedd hi am weld sesiynau siarad yn parhau er mwyn defnyddio'r Gymraeg gydag oedolion, "Os bydd rhywbeth tebyg i'r sesiynau dwi'n meddwl i cwrdd a grwp CYD. Dwi wedi clywed amdanyn nhw. Mae'n rhywbeth tebyg i beth ni wedi wneud yn y sesiynau. Jyst i cario mlaen gyda'r Cymraeg."

Cafwyd bod gwahaniaeth yn hyder y mamau yn y pedwar sgìl ieithyddol, sef gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu.

	Hapus lawn	**Hapus**	**Cyfanswm**
Deall	30%	34%	64%
Darllen	15%	27%	42%
Siarad	13%	21%	34%
Ysgrifennu	6%	18%	24%

Gall fod yn syndod bod cyn lleied o'r mamau'n hapus iawn gyda'u sgiliau deall neu siarad. Unwaith eto, mae'n bosibl mai cyfran gymharol uchel y dysgwyr yn eu plith sy'n gyfrifol am hyn.

Erbyn diwedd y cwrs, roedd mwyafrif helaeth y mamau'n fwy hapus â'u sgiliau Cymraeg. Roedd 18% yn llawer mwy hapus, a 52% yn fwy hapus.

Graff 26: Mamau'n fwy hapus â'u sgiliau iaith yn gyffredinol



O ran y sgiliau unigol, gwelwyd peth gwahaniaeth unwaith eto:

	Llawer mwy hapus	Mwy hapus	Cyfanswm
Wrth ddeall	53%	40%	93%
Wrth siarad	51%	40%	91%
Wrth ddarllen	25%	53%	78%
Wrth ysgrifennu	20%	39%	59%

Roedd tri phrif symudiad i'w weld erbyn diwedd y cwrs. Erbyn hyn roedd 64% o'r rhai a oedd yn 'hapus' gyda'u sgiliau Cymraeg yn awr yn 'llawer mwy hapus. Roedd 74% o'r rhai a oedd yn 'weddol hapus' yn awr yn 'fwy hapus', ac roedd 87% o'r rhai oedd 'ddim yn hapus' yn awr yn 'fwy hapus'. Mae'n deg honni bod symudiad ar hyd continwwm hyder ieithyddol wedi digwydd yn ystod y cwrs.

Wrth arsylwi'r sesiynau, gwelwyd bod yr hwyluswyr yn fedrus iawn wrth ymateb i anghenion ieithyddol y dysgwyr oedd yn eu sesiynau.

Graff 27: Cynnydd mewn hapusrwydd â sgiliau iaith yn ôl hapusrwydd cychwynnol â sgiliau iaith



Crynodeb hyder a sgiliau iaith

Roedd mamau'n fwy hapus wrth siarad Cymraeg â'u plant nag ag unrhyw un neu mewn unrhyw sefyllfa arall. Roedd rhwng 6% a 15% o famau'n hyderus wrth siarad Cymraeg, darllen ac ysgrifennu Cymraeg, ond gwelwyd symud cyffredinol ar hyd continwwm hyder ieithyddol erbyn diwedd y cwrs. Gellir priodoli cyfran gymharol isel y mamau oedd yn hyderus yn eu sgiliau iaith i'r gyfran oedd yn ddysgwyr.

Ystyriaeth
Mae angen ystyried a oes angen darpariaeth arbennig i ddysgwyr yn y sesiynau.